

TGAU



TGAU CBAC CERDDORIAETH

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

MANYLEB

Addysgu o 2016
l'w ddyfarnu o 2018

Fersiwn 4 Medi 2019



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	Mân newidiadau i egluro bod yr arholiad gwerthuso Uned 3 tua 1 awr o hyd, i gynnwys amrywiadau yn hyd y detholiadau cerddorol.	2 ac 14
	Mân newidiadau i adlewyrchu gofynion y ddogfen log cyfansoddi newydd. Er bod gofyn o hyd i athrawon fonitro gwaith ar dri achlysur, dim ond un llofnod a ddefnyddir i gadarnhau hyn.	23 a 24
3	Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll a throsglwyddo marciau'r Asesu Di-arholiad.	26
	Cynhwyswyd gwybodaeth yn ymwneud ag addasiadau i farciau perfformiadau Uned 1 sy'n llai na 4 munud o hyd yn adran 3.2 'Trefniadau Asesu Di-arholiad' ac yn Atodiad A	20, 21, 43 a 44
4	Newidiwyd y dyfyniadau wedi'u paratoi yn Uned 3 i'w hasesu o haf 2022.	17 ac 19



TGAU CBAC mewn CERDDORIAETH

I'w addysgu o 2016

I'w ddyfarnu o 2018

Mae'r fanyleb hon yn bodloni'r Egwyddorion Cymwysterau TGAU sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TGAU newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2016.

	Tudalen
Crynodeb o'r Asesu	2
1. Rhagarweiniad	3
1.1 Nodau ac amcanion	3
1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant	4
1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg	4
1.4 Bagloriaeth Cymru	5
1.5 Persbectif Cymreig	5
2. Cynnwys y pwnc	6
2.1 Uned 1: Perfformio	8
2.2 Uned 2: Cyfansoddi	12
2.3 Uned 3: Arfarnu	14
3. Asesu	19
3.1 Amcanion asesu a phwysoli	19
3.2 Trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad	20
4. Gwybodaeth dechnegol	26
4.1 Cofrestru	26
4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl	26
Atodiad A: Asesiad Uned 1	27
Atodiad B: Asesiad Uned 2	45
Atodiad C: Rhestr o dermau cerddorol	52

TGAU CERDDORIAETH (Cymru)

CRYNODEB O'R ASESU

Uned 1: Perfformio

Cyfanswm hyd perfformiadau: 4-6 munud

35% o'r cymhwyster

84 marc

Adran A: Perfformio (30%)

Lleiafswm o ddau ddarn, ac mae'n rhaid i **un** o'r rheini fod yn berfformiad **ensemble** sy'n para am **o leiaf munud**. Gall y darn(au) eraill fod **naill ai'n** unawd **a/neu'n** ensemble.

Mae'n rhaid i **un** o'r darnau a berfformir fod yn gysylltiedig â maes astudio o ddewis y dysgwr.

Adran B: Nodiadau Rhaglen (5%)

Nodiadau rhaglen ar gyfer **un** o'r darnau a ddewiswyd ar gyfer y perfformiad, wedi ei gysylltu â maes astudio.

Uned 2: Cyfansoddi

Cyfanswm hyd cyfansoddiadau: 3-6 munud

35% o'r cymhwyster

84 marc

Adran A: Cyfansoddi (30%)

Dau gyfansoddiad, ac mae'n rhaid i **un** fod yn ymateb i **friff a osodwyd gan CBAC**.

Bydd dysgwyr yn dewis un briff o ddewis o bedwar, a phob un yn gysylltiedig â maes astudio. Bydd y briffiau'n cael eu rhyddhau yn ystod wythnos gyntaf Medi yn ystod y flwyddyn academiaidd yr ymgwymerir â'r asesiad.

Mae'r **ail** gyfansoddiad yn gyfansoddiad rhydd y mae'r dysgwyr yn gosod eu briff eu hunain ar ei gyfer.

Adran B: Gwerthuso (5%)

Gwerthusiad o'r darn a gyfansoddwyd fel ymateb i **friff a osodwyd gan CBAC**.

Uned 3: Arfarnu**Arholiad ysgrifenedig: tua 1 awr
30% o'r cymhwyster****72 marc**

Asesir yr uned hon drwy arholiad gwrando.

Cyfanswm o **wyth** cwestiwn, **dau** ar bob un o'r pedwar maes astudio.

Maes astudio 1: Ffuriau a Dyfeisiau Cerddorol**Maes astudio 2: Cerddoriaeth ar gyfer Ensemble****Maes astudio 3: Cerddoriaeth Ffilm****Maes astudio 4: Cerddoriaeth Boblogaidd**

Mae dau o'r wyth cwestiwn yn seiliedig ar ddyfyniadau wedi'u paratoi a osodwyd gan CBAC.

Bydd y cymhwyster llinol hwn ar gael ym mis Mai/Mehefin bob blwyddyn. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2018.

Rhif Cymhwyster ar restr [The Register](#): 601/8290/8

Rhif Cymeradwyo Cymwysterau Cymru ar restr [QiW](#): C00/0780/5

TGAU CERDDORIAETH

1 RHAGARWEINIAD

1.1 Nodau ac amcanion

Bydd TGAU CBAC mewn Cerddoriaeth yn galluogi dysgwyr i:

- ymgysylltu'n weithgar â'r broses o astudio cerddoriaeth
- datblygu sgiliau perfformio yn unigol ac mewn grwpiau er mwyn cyfathrebu'n gerddorol gyda rhuglder a rheolaeth ar yr adnoddau a ddefnyddir
- datblygu sgiliau cyfansoddi er mwyn trefnu syniadau cerddorol a defnyddio adnoddau priodol
- adnabod cysylltiadau rhwng gweithgareddau integredig perfformio, cyfansoddi ac arfarnu a sut mae hyn yn llywio datblygiad cerddoriaeth
- ymestyn profiad a diddordeb cerddorol, datblygu dychymyg a meithrin creadigrwydd
- datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyfathrebu'n effeithiol fel cerddorion
- datblygu ymwybyddiaeth o amrywiaeth o offerynnau, arddulliau ac ymagweddau tuag at berfformio a chyfansoddi
- datblygu ymwybyddiaeth o dechnolegau cerddoriaeth a'r defnydd a wneir ohonynt wrth greu a chyflwyno cerddoriaeth
- adnabod genres, arddulliau a thraddodiadau cerddorol cyferbyniol, a datblygu peth ymwybyddiaeth o gronoleg gerddorol
- datblygu fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol gyda meddyliau chwilfrydig
- myfyrio ar eu cerddoriaeth eu hunain a cherddoriaeth pobl eraill a'i gwerthuso
- ymgysylltu a gwerthfawrogi'r dreftadaeth gerddorol amrywiol, er mwyn meithrin datblygiad personol, cymdeithasol, deallusol a diwylliannol.

Mae manyleb CBAC yn annog **ymagwedd integredig** tuag at berfformio, cyfansoddi ac arfarnu fel tair disgyblaeth benodol drwy gyfrwng pedwar maes astudio cydberthnasol. Dyluniwyd y pedwar maes astudio er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gerddoriaeth drwy astudio **amrywiaeth o genres ac arddulliau** mewn cyd-destun ehangach. **Traddodiad Clasurol y Gorllewin** yw sylfaen **Ffurfiâu a Dyfeisiau Cerddorol** (maes astudio 1), a dylai dysgwyr fanteisio ar y cyfle i archwilio'r ffurfiâu a'r dyfeisiau hyn ymhellach yn y tri maes astudio arall. Mae **Cerddoriaeth ar gyfer Ensemble** (maes astudio 2) yn galluogi dysgwyr i edrych yn fanylach ar wead ac ansawdd. Mae **Cerddoriaeth Ffilm** (maes astudio 3) a **Cherddoriaeth Boblogaidd** (maes astudio 4) yn rhoi cyfle i edrych ar arddulliau a genres cerddorol cyferbyniol. Drwy gyfrwng y meysydd astudio, bydd dysgwyr hefyd yn cael cyfle i ymgysylltu â cherddoriaeth o Gymru o fewn nifer o draddodiadau, gan gynnwys cerddoriaeth werin a cherddoriaeth boblogaidd.

1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes gofynion dysgu blaenorol ar gyfer y fanyleb hon. Yr ysgol/ coleg sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu gosod o ran cael mynediad i gwrs sy'n seiliedig ar y fanyleb hon.

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar gynnwys pwnc a addysgir yn nodweddiadol ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 ac mae'n gweithredu fel sail addas ar gyfer astudio cerddoriaeth naill ai ar lefel UG neu Safon Uwch. Yn ogystal, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau ystod amrywiol o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr penodol fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.icq.org.uk). Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sy'n cael eu hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesu.

1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy Dystysgrif Her Sgiliau o fewn Bagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

1.5 Persbectif Cymreig

Wrth ddilyn y fanyleb hon, dylai dysgwyr gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai cynnwys y cyfleoedd hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwrpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r Byd. Cynigir cyfleoedd yn y meysydd astudio i ddysgwyr roi ystyriaeth i gerddoriaeth a ysgrifennwyd gan gyfansoddwyr o Gymru neu a berfformiwyd gan artistiaid o Gymru.

2 CYNNWYS Y PWNC

Cyflwyniad

Mae'r fanyleb hon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gerddoriaeth drwy gyfrwng pedwar maes astudio **cydberthnasol**:

Maes astudio 1: Ffuriau a Dyfeisiau Cerddorol

Maes astudio 2: Cerddoriaeth ar gyfer Ensemble

Maes astudio 3: Cerddoriaeth Ffilm

Maes astudio 4: Cerddoriaeth Boblogaidd.

Mae tair uned yn y fanyleb yn seiliedig ar dair sgil, sef, **perfformio, cyfansoddi ac arfarnu**. Anogir ymagwedd integredig tuag at y tair sgil ym mhob un o'r meysydd astudio, er mwyn amlygu pwysigrwydd y berthynas rhwng cyfansoddwr, perfformiwr a chynulleidfa.

Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth o bob maes astudio eu hasesu'n benodol yn Uned 3. Fodd bynnag, bydd gofyn hefyd i'r dysgwyr berfformio a chyfansoddi cerddoriaeth gan ddefnyddio confensiynau, arddulliau neu idiomau sy'n gysylltiedig ag o leiaf **un** maes astudio. Gall dysgwyr ddewis yr un meysydd astudio neu feysydd gwahanol ar gyfer Unedau 1 a 2. Hefyd, bydd dysgwyr yn cael cyfle i ddilyn eu diddordebau cerddorol eu hunain wrth gyfansoddi a pherfformio.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn darparu cyflwyniad i bob maes astudio. Mae Adrannau 2.1 i 2.3 y fanyleb hon yn darparu manylion am bob uned.

Maes astudio 1: Ffuriau a Dyfeisiau Cerddorol

Mae ffurfiau a dyfeisiau yn sylfaenol bwysig mewn cyfansoddiadau cerddorol, ac mae gwreiddiau llawer o'r ffurfiau a'r dyfeisiau cerddorol cyffredin a ddefnyddir gan gyfansoddwyr heddiw yn perthyn i Draddodiad Clasurol y Gorllewin. Mae cerddoriaeth y **cyfnodau Baróc, Clasurol a Rhamantaidd** yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer astudio **ffurfiau dwyran, teiran, miniwét a thrio, rondo, amrywiad a stroffig**. Anogir dysgwyr i ymgysylltu ag amrywiaeth o gerddoriaeth o'r cyfnodau rhagnodedig, drwy gyfrwng amrywiaeth o weithgareddau perfformio, cyfansoddi ac arfarnu. Fe'u hanogir hefyd i **greu cysylltiadau** rhwng y gerddoriaeth maent yn gwrando arni, darnau maent yn eu perfformio a'u cyfansoddiadau eu hunain, yn ogystal â cherddoriaeth gan gyfansoddwyr eraill o'r ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain sy'n defnyddio'r ffurfiau a'r dyfeisiau hyn.

Maes astudio 2: Cerddoriaeth ar gyfer Ensemble

Mae cerddoriaeth ar gyfer ensemble yn sylfaen ar gyfer astudio **gwriad ac ansawdd**. Drwy astudio arddulliau cerddorol amrywiol a gyfansoddwyd ar gyfer ensemble, fel **jazz a blues, theatr gerdd, cerddoriaeth siambr a cherddoriaeth werin Gymreig**, bydd dysgwyr yn ystyried sut mae cerddoriaeth yn cael ei chyfansoddi ar gyfer grwpiau bach o offerynnau a lleisiau. Hefyd, bydd dysgwyr yn ystyried sut mae gwriad yn cael ei ddefnyddio ac fe'u hanogir i ddefnyddio grwpiau offerynnol/lleisiol bach yn eu cerddoriaeth eu hunain. Mae'n ofynnol i ddysgwyr berfformio fel rhan o ensemble, ac ymgysylltu'n weithgar drwy hyn â cherddoriaeth ensemble, gan ddeall y berthynas rhwng perfformwyr ar y llwyfan a'r gynulleidfa.

Maes astudio 3: Cerddoriaeth Ffilm

Mae yna ddiddordeb masnachol a diwylliannol sylweddol yn y diwydiant ffilm yn y DU a thramor. Mae yna nifer o feysydd arbenigol i gerddorion yn y diwydiant hwn fel cyfansoddwyr, trefnwyr ar gyfer cerddorfa, trefnyddion, perfformwyr, golygyddion cerddoriaeth, cynhyrchwyr a mwy. Mae cyfansoddwr ffilm yn sgorio cerddoriaeth fel cyfeiliant i luniau ffilm neu deledu. Mae hyn yn cynnwys isgerddoriaeth ddramatig a cherddoriaeth thematig yn ogystal ag ysgrifennu caneuon poblogaidd. Drwy'r maes astudio hwn anogir dysgwyr i ystyried sut mae cerddoriaeth ffilm yn cael ei chreu, ei datblygu a'i pherfformio, a beth yw effaith hynny ar gynulleidfa. Bydd dysgwyr yn cael cyfle i gyfansoddi a pherfformio cerddoriaeth ffilm ac fe'u hanogir i ddefnyddio technoleg cerddoriaeth i greu naws ac awyrgylch drwy ymgysylltu â stori'r ffilm.

Maes astudio 4: Cerddoriaeth Boblogaidd

Mae cerddoriaeth boblogaidd yn ffurf ar gelfyddyd eang ac amrywiol sy'n cwmpasu nifer o genres penodol. Mae'r diwydiant cerddoriaeth boblogaidd yn cynnig ystod o gyfleoedd i gyfansoddwyr a pherfformwyr, gan gynnwys cantorion, cyfansoddwyr caneuon, cynhyrchwyr cerddoriaeth, trefnyddion a mwy. Drwy'r maes astudio hwn bydd dysgwyr yn cael eu hannog i archwilio'r idiomau cerddorol sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth o gerddoriaeth boblogaidd, a byddant yn cael cyfle i berfformio cerddoriaeth boblogaidd yn ogystal â chyfansoddi cerddoriaeth sy'n gysylltiedig â genre cerddoriaeth boblogaidd. Hefyd, anogir dysgwyr i ddefnyddio technoleg cerddoriaeth, gan ddeall effaith hyn ar y ffordd y datblygir ac y perfformir cerddoriaeth ym maes cerddoriaeth boblogaidd.

2.1 Uned 1

Perfformio

Cyfanswm hyd perfformiadau: 4-6 munud

Asesiad di-arholiad: wedi'i asesu'n fewnol, wedi'i safoni'n allanol

35% o'r cymhwyster

84 marc

Adran A: Perfformio

Anogir dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gerddoriaeth drwy berfformio. Mae'n ofynnol i bob dysgwr berfformio **lleiafswm o ddau** ddarn, ac mae'n rhaid i **o leiaf un** ohonynt fod yn rhan o berfformiad **ensemble** sy'n para am **o leiaf un munud**. Gellir perfformio'r darn(au) eraill **naill ai** fel unawd **a/neu** fel rhan o ensemble. Mae'n rhaid i **un** darn fod yn gysylltiedig ag un o'r pedwar maes astudio. Mae'r perfformiadau offerynnol, perfformiadau lleisiol, dilyniannu, DJ-io, MC-io, rapio, bît-bocsio a chwarae'n fyrfyfyr yn cael eu derbyn mewn perfformiadau unawdol a pherfformiadau ensemble.

Bydd dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o:

- bwrpas a bwriad cyfansoddwyr, perfformwyr a'r rhai sy'n comisiynu cerddoriaeth
- effaith yr achlysur, y gynulleidfa a'r dewis o leoliad ar y ffordd y caiff cerddoriaeth ei chyfansoddi a'i pherfformio.

Dylai safon y darnau a ddewisir ar gyfer eu perfformio fod yn gyffredinol gyfatebol i radd 3 yr arholiadau cerddoriaeth graddedig. Mae Atodiad A yn cynnwys disgrifiadau o'r lefelau anhawster ar gyfer yr amrywiol berfformiadau sy'n dderbyniol yn y cymhwyster hwn. Mae'n rhaid dilyn y canllawiau hyn pan berfformir darnau **nad** ydynt yn cael eu rhestru ar gyfer arholiadau cerddoriaeth graddedig. Os hoffai dysgwr gynnig perfformiad nad yw'r gridiau yn atodiad A yn ei ddangos, yna dylai canolfannau gysylltu â CBAC am gyngor.

Mae'n rhaid i **un** darn a berfformir fod yn gysylltiedig ag agweddau penodol o gynnwys cerddorol **un** o'r pedwar maes astudio. Mae'n ofynnol i bob dysgwr berfformio o leiaf un darn ensemble, ac os bydd hwn yn gysylltiedig â maes astudio 2, Cerddoriaeth ar Gyfer Ensemble, mae'n rhaid i'r gerddoriaeth fod yn perthyn i un o'r genres neu arddulliau penodol sy'n rhan o'r maes astudio hwn.

Maes astudio 1: Ffuriau a Dyfeisiau Cerddorol

Maes astudio 2: Cerddoriaeth ar gyfer Ensemble

Maes astudio 3: Cerddoriaeth Ffilm

Maes astudio 4: Cerddoriaeth Boblogaidd

Mae enghreifftiau o berfformiadau sy'n gysylltiedig â maes astudio wedi'u nodi isod.

1. Ffuriau a Dyfeisiau Cerddorol

- Perfformiad o ddarn a gyfansoddwyd naill ai yn ystod y cyfnod Baróc, Clasurol neu Ramantaidd
- Perfformiad o ddarn a gyfansoddwyd naill ai mewn ffurf dwyran, teiran, rondo, amrywiad neu stroffig
- Perfformiad o ddarn o gerddoriaeth sy'n rhoi sylw arbennig i ddyfais gyfansoddi

2. Cerddoriaeth ar gyfer Ensemble

- Perfformiad o ddarn o gerddoriaeth siambr, neu theatr gerdd, neu jazz a blues neu gerddoriaeth werin Gymreig

3. Cerddoriaeth Ffilm

- Perfformiad o ddarn o gerddoriaeth a ddefnyddir mewn ffilm neu a gyfansoddwyd yn benodol ar gyfer ffilm

4. Cerddoriaeth Boblogaidd

- Perfformiad o unrhyw genre o gerddoriaeth boblogaidd

Gall y dysgwyr ddewis perfformio **un** o'u cyfansoddiadau eu hunain. Mae'n rhaid i'r dysgwyr sicrhau bod y cyfansoddiad yn rhoi'r cyfle iddynt arddangos eu sgiliau perfformio gorau.

Ni chyfyngir y dysgwyr i un offeryn/llais ond nid oes yna fantais i berfformio ar fwy nag un offeryn yn olynol. Os yw dysgwr yn chwarae dau offeryn ar yr un pryd, llais a gitâr er enghraifft, yna gall gael ei asesu ar y ddau. Mae'n rhaid rhoi copi o bob darn o gerddoriaeth i'r aseswr. Pan nad yw hynny'n bosibl oherwydd natur y perfformiad, e.e. DJ-io, mae'n rhaid darparu dalen ganllaw fanwl a chywir.

Gall y dysgwyr berfformio ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academiaidd yr ymgwymerir â'r asesiad. Nid oes rhaid i'r dysgwyr berfformio'r holl ddarnau ar yr un diwrnod. Mae'n rhaid recordio'r perfformiad gyda'r athro'n bresennol, fel y gellir dilysu'r gwaith. Ym **mhob** perfformiad, bydd disgwyl i'r dysgwyr arddangos:

- rheolaeth dechnegol
- mynegiant a dehongliad priodol
- cywirdeb rhythm a thraw
- cyflymder a rhuglder priodol
- defnydd effeithiol o ddynameg
- ymwybyddiaeth o arddull
- empathi (mewn chwarae ensemble).

Perfformiad Ensemble

Mae'n ofynnol i bob dysgwr berfformio fel rhan o ensemble. Gall perfformiad ensemble fod ar unrhyw offeryn, llais neu opsiwn technolegol. Ym mhob achos, mae'n ofynnol i'r dysgwyr:

- berfformio mewn grŵp o rhwng dau ac wyth o berfformwyr byw (nid oes rhaid i aelodau eraill yr ensemble fod yn sefyll yr arholiad)
- perfformio rhan **unigol** arwyddocaol **nad** yw'n cael ei dyblu
- perfformio i gyfeiliant **neu'n** ddigyfeiliant fel grŵp, ond **heb** arweinydd (gall y cyfeiliant fod yn fyw **neu'n** drac cyfeiliant).

Mae cyfeiliant Lieder (neu sgil debyg) yn ensemble derbyniol, pan mai'r **dysgwr yw'r cyfeilydd** ond nid pan mai'r dysgwr yw'r unawdydd.

Os oes amheuaeth ynglŷn â'r ensemble dylid cysylltu â CBAC am gyngor.

Perfformiad Unawdol

Gall y dysgwyr ddewis perfformio unawd. Gall unawdau fod **naill ai** i gyfeiliant **neu'n** ddigyfeiliant. Gall y cyfeiliant fod yn fyw neu'n drac cyfeiliant. Nid oes rhaid i'r cyfeilydd fod yn sefyll yr arholiad.

Chwarae'n Fyrfyr

Gall y dysgwyr ddewis paratoi darn byrfyr fel ymateb i **symbyliad** o'u dewis eu hunain ar gyfer perfformiad unawdol neu fel rhan o ensemble. Gellir paratoi hwn cyn yr asesiad ymarferol. (Gall symbyliad fod yn ddilyniant o gordiau, graddfa ac ati.)
Mae'n rhaid rhoi copi o'r symbyliad cerddorol i'r aseswr.

Perfformiad Technolegol

Gall y dysgwyr ddewis cynnig gwirediad technolegol fel rhan o ensemble neu berfformiad unawdol. Mae perfformiadau technolegol yn cynnwys **DJ-io** a **dilyniannu** a fformatau technolegol priodol eraill. Os oes gennych unrhyw amheuaeth a yw'r ffurf a ddewiswyd yn briodol ai peidio, cysylltwch â CBAC am gyngor.

Adran B: Nodiadau Rhaglen

Mae'n ofynnol i'r dysgwyr ysgrifennu nodiadau rhaglen ar gyfer yr un darn sy'n gysylltiedig â maes astudio. Dylai dysgwyr ddefnyddio sgiliau arfarnu er mwyn gwerthuso a gwneud penderfyniadau beirniadol ynglŷn â'r darn o gerddoriaeth a ddewiswyd ganddynt. Sylwer **nad** yw'n ofynnol i ddysgwyr werthuso **eu perfformiad eu hunain** o'r darn.

Mae safon y cyfathrebu ysgrifenedig yn cael ei asesu yn y darn hwn o waith ac mae disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio terminoleg gerddorol briodol. Dylai'r nodiadau rhaglen gynnwys rhwng 500 a 1000 o eiriau.

Dylai'r nodiadau rhaglen gynnwys y canlynol:

- Enw'r cyfansoddwr (**nid** oes angen bywgraffiad o'r cyfansoddwr)
- Esboniad o'r cysylltiad rhwng y darn a'r maes astudio yn cynnwys manylion am gyd-destun y darn (cynulleidfa, amser a'r lleoliad lle byddai wedi cael ei berfformio'n wreiddiol).
- Esboniad o sut mae dewis o elfennau cerddorol yn cael eu defnyddio yn y darn. Nid oes angen cynnwys pob elfen gerddorol; dylai dysgwyr ddewis tair neu bedair elfen sy'n cael y sylw amlycaf yn y gerddoriaeth.¹
- Gwerthusiad o ofynion perfformio technegol y darn. Mae hyn yn cynnwys y technegau offerynnol a/neu leisiol sy'n ofynnol i berfformio'r gerddoriaeth. **Nid** oes disgwyl i ddysgwyr ysgrifennu am eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain yn yr adran hon.

• ¹ Nid oes angen i ymgeiswyr sy'n DJ-io ystyried yr elfennau cerddorol yn y traciau unigol maent yn eu defnyddio ond dylent ystyried yr elfennau cerddorol yn yr adrannau mae'r DJ yn eu haddasu e.e. cymysgu curiad, symud traw, hafalydd, effaith.

Tystiolaeth portffolio

Mae'n rhaid cyflwyno tystiolaeth portffolio ar gyfer y sampl safoni naill ai ar-lein drwy wefan CBAC neu drwy'r post. Sylwer, os ydych yn cyflwyno'r dystiolaeth portffolio ar-lein, mae'n rhaid i'r recordiad o'r perfformiad fod ar fformat mp3 er mwyn lleihau maint y ffeil (cyfyngir maint ffeil unigol i uchafswm o 20MB). Mae'n rhaid i bob portffolio gynnwys yr eitemau a restrir isod.

1. Recordiadau o berfformiadau. Os ydych chi'n eu hanfon drwy'r post, rhowch y recordiadau ar CD neu gof bach os gwelwch yn dda. Cysylltwch â CBAC os ydych yn dymuno defnyddio cyfrwng gwahanol.
2. Ar gyfer pob darn, sgôr **neu** ddalen ganllaw sy'n amlinellu'r alaw, cordiau, tempo a chyfarwyddiadau perfformio.
3. Nodiadau rhaglen ar gyfer **un** darn sy'n gysylltiedig â maes astudio.
4. Ffurflen ddilysu â manylion y perfformiad, yn cynnwys teitlau a lefelau anhawster yr holl ddarnau a berfformiwyd, wedi ei llofnodi gan yr athro a'r ymgeisydd. Mae llofnod electronig yn dderbyniol. Defnyddiwch y ffurflen a ddarperir ar wefan CBAC.

Mae **Atodiad A** yn cynnwys mwy o wybodaeth am yr uned hon, gan gynnwys:

- gridiau asesu ar gyfer perfformiadau a nodiadau rhaglen
- canllawiau ar gyfer asesu Uned 1
- tabl o addasiadau ar gyfer lefel anhawster y darnau
- tablau yn dangos lefel anhawster y darnau a berfformiwyd
- tabl o addasiadau i berfformiadau sy'n llai na 4 munud o hyd.

2.2 Uned 2

Cyfansoddi

Cyfanswm hyd cyfansoddiadau: 3-6 munud

Asesiad di-arholiad: wedi'i asesu'n fewnol, wedi'i safoni'n allanol

35% o'r cymhwyster

84 marc

Adran A: Cyfansoddi

Anogir dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gerddoriaeth drwy gyfansoddi. Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd greu a datblygu syniadau cerddorol mewn perthynas â briffiau sydd wedi'u rhoi neu'u dewis.

Bydd dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o:

- bwrpas a bwriad cyfansoddwyr a'r rhai sy'n comisiynu cerddoriaeth
- effaith yr achlysur, y gynulleidfa a'r dewis o leoliad ar y ffordd y caiff cerddoriaeth ei chyfansoddi a'i pherfformio.

Mae'n rhaid i ddysgwyr gyflwyno **dau** gyfansoddiad sy'n para am gyfanswm o 3-6 munud.

1. Cyfansoddiad sy'n ymateb i friff a osodwyd gan CBAC. Bydd y briffiau'n cael eu rhyddhau yn ystod yr wythnos gyntaf ym mis Medi yn ystod y flwyddyn academiaidd yr ymgymherir â'r asesiad. Bydd dysgwyr yn dewis **un** briff o ddewis o bedwar, a phob un yn gysylltiedig â maes astudio gwahanol:

Maes astudio 1: Ffuriau a Dyfeisiau Cerddorol

Maes astudio 2: Cerddoriaeth ar gyfer Ensemble

Maes astudio 3: Cerddoriaeth Ffilm

Maes astudio 4: Cerddoriaeth Boblogaidd

2. Cyfansoddiad **rhydd**. Bydd dysgwyr yn cyfansoddi darn o gerddoriaeth mewn arddull o'u dewis eu hunain. Bydd y dysgwyr yn gosod eu briff eu hunain ar gyfer y cyfansoddiad hwn. Ni fydd y briff ei hun yn cael ei asesu; fodd bynnag, bydd dysgwyr yn cael eu hasesu ar eu hymateb cerddorol i'r briff.

Bydd y briffiau cyfansoddi, y rhai a osodir gan CBAC a'r rhai a osodir gan y dysgwr, bob amser yn darparu manylion am y gynulleidfa neu'r achlysur yn ogystal â chyd-destun cerddorol. Gellir canfod enghreifftiau o friffiau cyfansoddi yn y deunyddiau asesu enghreifftiol.

Yn y ddau gyfansoddiad, bydd disgwyl i'r dysgwyr arddangos:

- dealltwriaeth o arddull wrth ymateb i'r briff a ddewiswyd
- datblygiad syniadau cerddorol
- rheolaeth dechnegol ar elfennau ac adnoddau cerddorol
- cydlyniaid a dealltwriaeth gerddorol.

Adran B: Gwerthuso

Bydd dysgwyr yn defnyddio sgiliau arfarnu er mwyn gwerthuso a gwneud penderfyniadau beirniadol am eu darn o gerddoriaeth eu hunain a gyfansoddwyd fel ymateb i friff a osodwyd gan CBAC. Sylwer **nad** oes disgwyl i ddysgwyr werthuso'r **broses** o gyfansoddi'r darn.

Mae disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio terminoleg gerddorol briodol. Dylai'r gwerthusiad gynnwys rhwng 500 a 1000 o eiriau.

Bydd disgwyl i'r dysgwyr werthuso:

- pa mor llwyddiannus yw'r darn o ran ymateb i'r briff a osodwyd, gan roi rhesymau dros eu barn
- sut mae elfennau cerddorol yn cael eu defnyddio yn y darn, esbonio pam mae penderfyniadau cerddorol penodol wedi'u gwneud, gan gynnwys pa mor effeithiol yw'r dewisiadau
- effeithiolrwydd y canlyniad terfynol, gan gynnwys ansawdd y recordiad.

Tystiolaeth portffolio

Mae'n rhaid cyflwyno tystiolaeth portffolio ar gyfer y sampl safoni ar-lein drwy wefan CBAC. Sylwer, os ydych yn cyflwyno'r dystiolaeth portffolio ar-lein, mae'n rhaid i'r recordiad o'r cyfansoddiad fod ar fformat mp3 er mwyn lleihau maint y ffeil (cyfyngir maint ffeil unigol i uchafswm o 20MB). Gellir derbyn dogfennau ar ffurf PDF, Word neu unrhyw fformat arall sydd ar hyn o bryd yn gydnaws â Microsoft Office 2010. Mae'n rhaid i bob portffolio gynnwys yr eitemau isod.

1. Recordiadau o gyfansoddiadau.
2. Ar gyfer pob darn, sgôr **neu** ddisgrifiad ysgrifenedig manwl o'r gerddoriaeth a dalen ganllaw yn amlinellu'r alaw, cordiau, adeiledd a dyfeisiau cyfansoddi.
3. Gwerthusiad o'r darn a gyfansoddwyd fel ymateb i **friff** a osodwyd gan CBAC.
4. Log cyfansoddi a datganiad dilysu wedi ei lofnodi. Mae'n rhaid i'r athro gydlofnodi'r log. Mae llofnod electronig yn dderbyniol. Defnyddiwch y templed log a ddarperir ar wefan CBAC.

Mae **Atodiad B** yn cynnwys mwy o wybodaeth am yr uned hon gan gynnwys:

- gridiau asesu ar gyfer cyfansoddiadau a gwerthuso
- canllawiau ar gyfer asesu Uned 2
- cyngor ychwanegol ar gyfer cyfansoddi o fewn y meysydd astudio

2.3 Uned 3

Arfarnu

Arholiad ysgrifenedig: tua 1 awr
30% o'r cymhwyster
72 marc

Bydd yr arholiad hwn yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth o gerddoriaeth drwy gyfrwng y pedwar maes astudio canlynol:

Maes astudio 1: Ffuriau a Dyfeisiau Cerddorol

Maes astudio 2: Cerddoriaeth ar gyfer Ensemble

Maes astudio 3: Cerddoriaeth Ffilm

Maes astudio 4: Cerddoriaeth Boblogaidd.

Bydd dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o elfennau cerddorol, cyd-destunau cerddorol ac iaith gerddorol.

Elfennau Cerddorol

- alaw
- harmoni
- cyweiredd
- ffurf ac adeiledd
- dynameg
- ansawdd
- gwead
- tempo
- rhythm
- mesur

Mae **Atodiad C** yn cynnwys rhestr o dermau cerddorol sy'n gysylltiedig â'r elfennau cerddorol hyn.

Cyd-destunau Cerddorol

- sut mae cerddoriaeth yn cael ei chreu a'i pherfformio mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol

Iaith Gerddorol

- darllen **ac** ysgrifennu nodiant cleff y trebl **a** cleff y bas mewn amser syml
- darllen nodiant cleff y trebl **a** cleff y bas mewn amser cyfansawdd
- rhifau Rhufeinig ar gyfer cordiau I, ii, iii, IV, V a vi mewn cywair mwyaf
- symbolau cordiau cyfoes ar gyfer cordiau mewn cywair mwyaf e.e. C, Dm, Em, F, G(7) ac Am
- darllen ac ysgrifennu arwyddion cywair hyd at bedwar llonnod a meddalnod
- geirfa gerddorol mewn perthynas â meysydd astudio

Mae'r uned hon yn annog dysgwyr i ddatblygu sgiliau wrth arfarnu cerddoriaeth drwy archwilio amrywiaeth eang o gerddoriaeth sy'n gysylltiedig â'r **pedwar** maes astudio. Dylai'r dysgwyr ymgysylltu â cherddoriaeth cyfansoddwyr ac artistiaid o Gymru ym mhob maes astudio pan fydd cyfle i wneud hynny. Mae pob maes astudio yn cynnwys rhestr o dermau sy'n canolbwyntio ar wybodaeth a dealltwriaeth gerddorol benodol. Fodd bynnag, dylai dysgwyr ac athrawon fod yn ymwybodol y gellir trosglwyddo'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r iaith, elfennau, a'r cyd-destunau hyn, ac mae'n rhaid ystyried y rhestr gyflawn o dermau cerddorol yn Atodiad C wrth baratoi at yr arholiad.

Maes astudio 1: Ffuriau a Dyfeisiau Cerddorol

Yn y maes astudio hwn, mae dysgwyr yn gosod cerddoriaeth mewn cyd-destun hanesyddol eang. Fodd bynnag, nid oes disgwyl iddynt ddatblygu cronoleg fanwl o gerddoriaeth ar wahân i ymwybyddiaeth o brif nodweddion cerddoriaeth Baróc, Clasurol a Rhamantaidd. Mae'r maes astudio yn canolbwyntio ar ddeall **ffurfiau adeileddol a dyfeisiau** ar draws amrywiaeth o genres ac arddulliau o **Draddodiad Clasurol y Gorllewin** 1650-1910.

Mae'r maes astudio hwn yn cynnwys **un** dyfyniad wedi'i baratoi y mae'n rhaid i'r dysgwyr ei astudio yn drylwyr.

- **Peer Gynt: Anitra's Dance (Cyfres Rhif 1):** Grieg (1875) i'w asesu o haf 2022 ymlaen.

Drwy wrando ar a/neu chwarae enghreifftiau o gerddoriaeth o Draddodiad Clasurol y Gorllewin (1650-1910), bydd dysgwyr yn adnabod prif nodweddion **ffurfiau dwyran, teiran, miniwét a thrïo, rondo, amrywiad a stroffig**, gan gynnwys sut mae cyfansoddwyr yn defnyddio'r dyfeisiau cerddorol a restrir isod i greu a datblygu cerddoriaeth:

- ailadrodd
- cyferbyniad
- anacrwsis
- efelychiant
- dilyniant
- ostinato
- trawsacennu
- rhythmau dot
- drôn
- pedal
- canon
- symudiad cysylltiol
- symudiad digyswllt
- addurniadau
- cordiau gwasgar/arpeggio
- bas alberti
- brawddeg rheolaidd
- motiffau melodig a rhythmig
- dilyniadau cordiau syml yn cynnwys diweddebau
- trawsgyweirio i'r llywydd a'r perthynol lleiaf.

Maes astudio 2: Cerddoriaeth ar gyfer Ensemble

Yn y maes astudio hwn, bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o **ansawdd a gwead**, gan gynnwys grwpio offerynnol a lleisiol fel sy'n briodol i'w cyd-destun. Drwy wrando ar a/neu berfformio enghreifftiau o **gerddoriaeth siambr, theatr gerdd, jazz a blues a chaneuon/alawon gwerin Cymreig**, bydd dysgwyr yn astudio gwead, gan gynnwys sut mae cyfansoddwyr yn cyfuno llinellau cerddorol yn y gweadau canlynol:

- monoffonig
- homoffonig
- polyffonig
- unsain
- cordiol
- haenog
- alaw a chyfeiliant
- tôn gron
- canon
- cyfalaw.

Bydd dysgwyr hefyd yn ystyried sut mae gwead yn cael ei ddefnyddio yn y grwpiau offerynnol a lleisiol canlynol:

- ensemblau lleisiol (yn cynnwys unawdau, deuawdau, triawdau, defnyddio lleisiau cefndir)
- triawd jazz/blues
- adran rhythm
- pedwarawd llinynnol
- basso continuo
- sonatau
- cerdd dant.

Maes astudio 3: Cerddoriaeth Ffilm

Yn y maes astudio hwn, bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o gerddoriaeth ffilm gan gynnwys y defnydd o **ansawdd, lliw tôn a dynameg** i greu effaith. Anogir dysgwyr i archwilio cerddoriaeth a gyfansoddwyd gan gyfansoddwyr o Gymru a/neu gerddoriaeth a gyfansoddwyd ar gyfer ffilmiau Cymreig. Drwy wrando ar a/neu berfformio enghreifftiau o gerddoriaeth ffilm, bydd dysgwyr yn astudio sut mae:

- cyfansoddwyr yn defnyddio elfennau cerddorol yn briodol er mwyn ymateb i gomisiwn penodol
- cyfansoddwyr yn defnyddio leitmotifs a thrawsnewidiad thematig i ddatblygu deunydd thematig
- ymateb i symbyliad penodol neu gomisiwn fel geiriau neu luniau
- nodweddion cerddorol yn cael eu mabwysiadu gan gyfansoddwyr er mwyn greu naws mewn cerddoriaeth ddisgrifiadol
- perfformwyr yn dehongli cyfansoddiad
- cynulleidfa a/neu leoliad yn effeithio ar y perfformiad a/neu gyfansoddiad
- ansawdd offerynnol a/neu lleisiol yn cael ei ddefnyddio i greu lliw/naws
- dynameg a chyferbyniad yn cael eu defnyddio i greu effeithiau arbennig
- technoleg cerddoriaeth yn gallu cael ei defnyddio i gyfoethogi ansawdd ymhellach
- technegau minimalaidd yn cael eu defnyddio mewn cerddoriaeth ffilm.

Maes astudio 4: Cerddoriaeth Boblogaidd

Yn y maes astudio hwn, bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o gerddoriaeth boblogaidd: **pop, roc a chyfuniad (o arddulliau gwahanol)**. Anogir dysgwyr i archwilio cerddoriaeth bandiau o Gymru a pherfformwyr unigol yn y maes astudio hwn.

Mae'r maes astudio hwn yn cynnwys **un** dyfyniad wedi'i baratoi y mae'n rhaid i'r dysgwyr ei astudio yn drylwyr.

- ***Everything Must Go***: Manic Street Preachers (wedi'i rhyddhau yn 1996) i'w asesu o haf 2022 ymlaen.

Drwy wrando ar a/neu berfformio enghreifftiau o gerddoriaeth boblogaidd, bydd dysgwyr yn astudio sut mae:

- sain offerynnol a sain wedi'i syntheseiddio yn cael eu defnyddio
- cerddoriaeth wreiddiol yn gallu cael ei haddasu
- seiniau lleisiol yn cael eu defnyddio
- offerynnau a lleisiau yn cael eu cyfuno
- sain yn cael ei gynhyrchu gan gyfrifiadur a'i fwyhau
- meddalwedd a samplau yn cael eu defnyddio.

Hefyd bydd dysgwyr yn adnabod a defnyddio (fel sy'n briodol) y nodweddion cerddorol canlynol:

- ffurf cân 32 bar
- stroffig
- blues 12 bar
- pennill
- cytgan
- riffiau
- 8 (bar) canol
- pont
- llenwi
- toriad offerynnol
- rhagarweiniad a diweddsglo
- chwarae'n fyrfyfyr
- dolenni
- samplau
- panio
- anghydweddu (*phasing*)
- trawsacennu
- rhythmau sy'n gyrru
- cydbwysedd
- dilyniadau cordiau safonol
- cyfansoddi melismataidd a sillafog
- prif leisiau a lleisiau cefndir
- traciau cyfeiliant
- prif gordiau
- cordiau eilaidd
- diweddebau.

Asesu Uned 3

Bydd yr arholiad arfarnu yn cynnwys **wyth** cwestiwn, **dau** am bob maes astudio. O'r wyth cwestiwn, bydd **chwech** ar ddyfyniadau cerddorol heb eu paratoi a **dau** ar ddyfyniadau a osodwyd gan CBAC sy'n gysylltiedig â **dau** faes astudio. Bydd y dyfyniadau gosod yn cael eu hadolygu yn gyfnodol.

Anogir dysgwyr i astudio sgorau'r dyfyniadau gosod wrth baratoi at yr arholiad. Fodd bynnag, ni ddylid mynd â sgorau i'r arholiad, bydd adrannau o'r sgorau yn cael eu rhoi ar y papur arholiad pan fydd angen hynny ar gyfer y cwestiwn.

Bydd y dyfyniadau heb eu paratoi a chwaraeir yn yr arholiad yn perthyn i genres, arddulliau neu gyfnodau penodol o bob maes astudio a byddant yn cynnwys enghreifftiau o gerddoriaeth gan gyfansoddwyr a/neu berfformwyr o Gymru.

Yn yr arholiad bydd yr ymgeiswyr yn:

- nodi elfennau cerddorol, cyd-destunau cerddorol ac iaith gerddorol, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth wrando ar gerddoriaeth gyfarwydd ac anghyfarwydd
- gwneud penderfyniadau gwerthusol a beirniadol ynglŷn ag elfennau cerddorol, cyd-destunau cerddorol ac iaith gerddorol, gan ddefnyddio terminoleg gerddorol briodol
- cwblhau rhythm neu draw darn byr o gerddoriaeth (symudiadau cysylltiol fydd yn cael ei ddefnyddio'n bennaf yn y cwestiynau ond gellid cynnwys unrhyw neidiau yn y raddfa fwyaf).

3 ASESU

3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Isod nodir yr amcanion asesu ar gyfer y fanyleb hon. Mae'n rhaid i ddysgwyr ddangos eu gallu i wneud y canlynol:

AA1

Perfformio â rheolaeth dechnegol, mynegiant a dehongliad

AA2

Cyfansoddi a datblygu syniadau cerddorol â rheolaeth dechnegol a chydlyniant

AA3

Dangos a chymhwyso gwybodaeth gerddorol

AA4

Defnyddio sgiliau arfarnu i wneud penderfyniadau gwerthusol a beirniadol ynglŷn â'u cerddoriaeth eu hunain a cherddoriaeth pobl eraill.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymhwyster cyfan.

	AA1	AA2	AA3	AA4	Cyfanswm
Uned 1	30%			5%	35%
Uned 2		30%		5%	35%
Uned 3			20%	10%	30%
Pwysoli cyffredinol	30%	30%	20%	20%	100%

Ym mhob cyfres, bydd asesiad o ysgrifennu cywir yn digwydd yn:

- y nodiadau rhaglen (Uned 1)
- cwestiwn penodol yn yr arholiad ysgrifenedig (Uned 3) lle mae gofyn ysgrifennu'n estynedig

3.2 Trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad

Mae'r trefniadau canlynol ar gyfer yr asesiad di-arholiad yn Unedau 1 a 2.

Uned 1: Perfformio

Dewis repertoire

Mae'n rhaid i ddysgwyr ddewis y darnau y byddant yn eu perfformio ar gyfer yr asesiad. Cyngorir y dysgwyr i drafod eu dewisiadau â'u canolfan er mwyn sicrhau bod y darnau a ddewisir yn briodol. Mae'n rhaid i **un** darn ddangos cysylltiad amlwg â maes astudio ac mae'n rhaid dangos hyn ar y daflen farcio.

Asesu

Mae Uned 1 yn asesu AA1 yn ei gyfanrwydd ac AA4 yn rhannol.

- Y marc uchaf ar gyfer Uned 1 yw **84**.
- Mae'r darnau yn cael eu marcio allan o **72** ac mae'r nodiadau rhaglen yn cael eu marcio allan o **12**.
- Mae pob darn unigol a berfformir yn cael ei farcio allan o **36**.
- Pan fydd mwy na dau ddarn yn cael eu cynnig, mae'r cyfanswm marciau yn cael ei rannu gan nifer y darnau a'i luosi â dau, er mwyn sefydlu marc terfynol allan o 72. e.e.
 $36+30+34=100$
 $100/3=33.3$
 $33.3 \times 2=66.6$ (ei dalgrynnu'n uwch os yn 0.5 neu'n uwch)
 Marc terfynol = 67.
- Mae'n rhaid i'r perfformiadau a'r nodiadau rhaglen gael eu hasesu'n fewnol gan yr athro gan ddefnyddio'r gridiau asesu yn **Atodiad A**.
- Penderfynir ar lefel anhawster pob darn gan ddefnyddio'r tablau a ddarperir yn

Atodiad A.

- Os bydd dysgwr yn cynnig perfformio darn nad yw'n rhan o'r meysydd llafur cerddoriaeth graddedig nac wedi'i gynnwys yn y tablau yn Atodiad A, neu'n chwarae darn ar offeryn nad yw wedi'i gynnwys yn y tablau yn Atodiad A, dylai canolfannau gysylltu â CBAC er mwyn sefydlu safon y darnau a'r technegau priodol a fydd yn cael eu hasesu yn y perfformiad.
- Yna dylid addasu'r marc crai gan ddefnyddio'r tabl graddio yn **Atodiad A**.
- Mae lefel y safon sy'n ofynnol yn cyfateb yn fras i radd 3 mewn arholiad cerddoriaeth graddedig (GME).
- Mae'n hanfodol bod cyfanswm yr amser perfformio yn **4 munud o leiaf**. Cadarnhaodd y rheoleiddiwr bod yn rhaid cosbi unrhyw gyflwyniad sy'n llai na 4 munud.
- Mae perfformiad sy'n gyfanswm o 4 munud yn 100% o'r gofyniad asesu. Os yw perfformiad cyfan ymgeisydd yn llai na 4 munud o hyd, yna cyfran o'r marc cychwynnol a ddyfernir i gyfateb i'r gyfran o'r gofyniad asesu a gwblhawyd. Dyma'r **marc wedi'i addasu**. Yr arholwr ymweld fydd yn cyfrifo'r marc wedi'i addasu gan gynyddu fesul 30 eiliad fel sydd i'w weld yn y tabl gyferbyn.

Cyfanswm amser y perfformiad (munudau ac eiliadau)	Marc wedi'i addasu
3:30 i 3:59	87.5% o'r marc cychwynnol
3:00 i 3:29	75% o'r marc cychwynnol
2:30 i 2:59	62.5% o'r marc cychwynnol
2:00 i 2:29	50% o'r marc cychwynnol
1:30 i 1:59	37.5% o'r marc cychwynnol
1:00 i 1:29	25% o'r marc cychwynnol
0:30 i 0:59	12.5% o'r marc cychwynnol
0:00 i 0:29	0 marc

Mae siart trawsnewid marciau i'w weld, er gwybodaeth, yn **Atodiad A**.

- Ni ddylai'r perfformiad bara mwy na 6 munud. Nid oes cosb am berfformiadau sy'n para mwy na hynny. Fodd bynnag, bydd y safonwr yn seilio ei asesiad ar y 6 munud cyntaf yn unig, felly mae disgwyl i athrawon seilio eu marcio ar y 6 munud cyntaf yn unig.
- Gellir perfformio pob darn ar adegau gwahanol yn ystod y flwyddyn academaidd yr ymgyszerir â'r asesiad, neu gellir perfformio pob un ar yr un adeg.
- Mae angen recordio pob darn mewn **un ymdrech sydd heb ei golygu**. Ni chaniateir perfformio rhannau gwahanol o'r un darn ar ddiwrnodau gwahanol.
- Ni** ellir golygu'r darn drwy ddefnyddio rhannau gwahanol o'r perfformiad; felly, mae'n rhaid i'r darn a gyflwynir fod yn un perfformiad byw.
- Mae'n rhaid mai gwaith y dysgwr ei hun yw'r nodiadau rhaglen a neb arall.
- Nid oes unrhyw derfyn ar faint o amser y gall dysgwyr ei dreulio ar eu nodiadau rhaglen. Gall athrawon arwain a chefnogi'r dysgwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall gofynion y nodiadau rhaglen, yn cynnwys y grid asesu.
- Rhaid i athrawon weld un fersiwn drafft o'r nodiadau rhaglen ond nid oes hawl ganddynt ddarparu adborth ysgrifenedig. Rhaid cyfyngu unrhyw adborth ar lafar i gyngor cyffredinol yn unig, ni chaiff athrawon gynnig arweiniad penodol ar sut i wella'r gwaith.

Tystiolaeth asesu

- Mae'n rhaid paratoi recordiad sain o'r holl berfformiadau a'u cadw yn y ganolfan, oni bai bod CBAC yn gwneud cais i'w safoni.
- Mae'n bwysig bod yr asesiad yn cael ei fonitro'n drylwyr gan y canolfannau er mwyn sicrhau mai perfformiad a nodiadau rhaglen y dysgwyr eu hunain a asesir a neb arall. Mae'n ofynnol i **bob dysgwr** lofnodi datganiad dilysu sy'n ardystio mai eu perfformiad a'u nodiadau rhaglen nhw eu hunain yw'r perfformiad dan sylw, ac mae'n rhaid i'r canolfannau gydlofnodi eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol i ddilysu hyn. Mae'r datganiad dilysu wedi'i gynnwys ar daflen farcio'r dysgwr.
- Mae'n rhaid i **bob dysgwr** gwblhau'r ddogfen ddilysu, nid y rhai a ddewisir ar gyfer sampl y safonwr yn unig.
- Mae'n rhaid storio'r perfformiad cyfan, sy'n cynnwys yr **holl** ddarnau, gyda'i gilydd gyda sgôr neu ddalen ganllaw ar gyfer yr holl ddarnau a'r nodiadau rhaglen.

Safoni a chymedroli

Pan fydd mwy nag un athro mewn canolfan, mae'n hanfodol cymedroli gwaith o'r holl grwpiau addysgu yn fewnol. Pwrpas hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon gytûn ar gyfer yr holl grwpiau addysgu sydd dan sylw. Fel arfer bydd CBAC yn safoni'n allanol ym mis Mai. Bydd pob canolfan yn cael adborth manwl o'r broses safoni allanol hon.

Cyflwyno gwaith sampl a marciau

- Mae'n ofynnol i ganolfannau gyflwyno marciau ar-lein ar gyfer gwaith a asesir yn fewnol erbyn dyddiad penodedig ym mis Mai.
- Pan fydd y marciau wedi'u cyflwyno i CBAC, bydd y system ar-lein yn cymhwyso'r fformiwla sampl yn seiliedig ar drefn restrol gyffredinol yr holl waith a gyflwynwyd, a bydd y sampl o ddysgwyr y mae eu gwaith yn cael ei ddewis ar gyfer safoni yn cael ei nodi yn syth.
- Mae'n rhaid cyflwyno tystiolaeth portffolio ar gyfer y sampl safoni ar-lein drwy wefan CBAC. Sylwer y dylai'r recordiad fod ar fformat mp3 er mwyn lleihau maint y ffeil (cyfyngir maint ffeil unigol i uchafswm o 20MB).
- Mae'n rhaid i recordiadau, nodiadau rhaglen a ffurflenni dilysu dysgwyr yn y sampl gael eu cyflwyno ar-lein erbyn y dyddiad penodedig ym mis Mai.
- Hefyd, mae'n rhaid llwytho i fyny sgorau/dalenni canllaw yr ymgeiswyr yn y sampl at y safonwr.

Asesu: cynlluniau marcio a chanllawiau ychwanegol

Mae'n ofynnol i athrawon ddefnyddio'r cynlluniau marcio a ddarperir yn y fanyleb hon, gan gyfeirio at y canllawiau yn Atodiad A wrth gynnal asesiad mewnol o Uned 1. Pwrpas rhain yw cyflwyno system sy'n cysylltu'r amcanion asesu â marciau ac sy'n helpu i wahaniaethu'n glir rhwng y lefelau cyrhaeddiad amrywiol. Mae'r cynlluniau marcio ar eu mwyaf gwerthfawr pan gânt eu defnyddio law yn llaw â chanllawiau ac enghreifftiau o waith sydd wedi'i asesu, fydd ar gael yn y canllawiau athrawon er mwyn helpu canolfannau i adnabod safon y gwaith sy'n gysylltiedig â'r bandiau marciau penodol.

Uned 2: Cyfansoddi

Briffiau cyfansoddi

Bydd **un** cyfansoddiad yn ymateb i **friff a osodwyd gan CBAC**. Bydd dewis ar gael o bedwar briff a bydd angen i'r dysgwyr ddewis **un** ohonynt. Bydd y briffiau cyfansoddi yn wahanol bob blwyddyn ond byddant bob amser yn cynnwys manylion ynglŷn â **naill ai'r** achlysur **neu'r** gynulleidfa y dylid cyfansoddi'r darn ar eu cyfer, yn ogystal â chyd-destun cerddorol. Bydd y dewis o friffiau'n cael eu rhyddhau i ganolfannau yn ystod wythnos gyntaf Medi yn ystod y flwyddyn academiaidd yr ymgwymerir â'r asesiad. Gweler y deunyddiau asesu enghreifftiol am enghreifftiau o friffiau cyfansoddi.

Ar gyfer yr **ail** gyfansoddiad, bydd dysgwyr yn gosod eu **briff eu hunain**. Mae'n rhaid i'r briff hwn hefyd gynnwys manylion am **naill ai'r** achlysur **neu'r** gynulleidfa y maent yn cyfansoddi'r darn ar eu cyfer, yn ogystal â'r holl fanylion cerddorol perthnasol ychwanegol. Mae'n rhaid cynnwys y briff yn y log cyfansoddi. Defnyddiwch y templed a ddarperir ar wefan CBAC. Ni fydd y briff ei hun yn cael ei asesu; fodd bynnag, bydd dysgwyr yn cael eu hasesu ar eu hymateb cerddorol i'r briff. Mae'n bwysig bod canolfannau yn rhoi sylw dyledus i'r dewis o friff cyfansoddi er mwyn sicrhau eu bod yn caniatáu i ddysgwyr fodloni'r amcan asesu. Os ydych yn ansicr ynglŷn â briffiau cyfansoddi, trowch at yr adnoddau a'r canllawiau ar y wefan neu cysylltwch â CBAC.

Asesu

Mae Uned 2 yn asesu AA2 yn ei gyfanrwydd ac AA4 yn rhannol.

- Y marc uchaf ar gyfer Uned 2 yw **84**.
- Mae'r cyfansoddiadau yn cael eu marcio allan o **72** ac mae'r gwerthusiad yn cael ei farcio allan o **12**.
- Bydd pob dysgwr yn cyflwyno dau gyfansoddiad gaiff eu marcio allan o **36**.
- Bydd y cyfansoddiadau a'r gwerthusiad yn cael eu hasesu'n fewnol gan yr athro gan ddefnyddio'r gridiau asesu yn **Atodiad B**.
- Mae'n rhaid i'r cyfansoddiadau bara am gyfanswm o rhwng **3 a 6 munud**.
- Ni chosbir cyfansoddiadau sy'n llai na'r lleiafswm amser oherwydd mae'n annhebygol iawn y bydd cyfansoddiadau sy'n llai na'r lleiafswm amser wedi datblygu digon i gyrraedd y bandiau marciau uchaf.
- Ni chosbir cyfansoddiadau sy'n para mwy na'r uchafswm amser. Fodd bynnag, bydd y safonwr yn seilio ei asesiad ar y 6 munud cyntaf yn unig, felly mae disgwyl i athrawon seilio eu marcio ar y 6 munud cyntaf yn unig.
- Pan **nad** yw ymgeisydd yn ymateb i'r briff a osodir gan CBAC, mae'n rhaid dyfarnu 0 i'r cyfansoddiad. Er enghraifft, ni fydd marciau yn cael eu rhoi am ymateb i'r briff a osodir gan CBAC i gyfansoddi darn ar ffurf deiran os bydd y darn yn amlwg ar ffurf stroffig. Sylwer, ni chosbir ymgeiswyr sy'n amlwg wedi ymdrechu i ymateb i'r briff ond nad ydynt wedi llwyddo'n gyfan gwbl i wneud hynny.

Pan fydd gwahaniaethau amlwg rhwng y sgôr a'r recordiad, mae'n rhaid i ddysgwyr esbonio yn eu log cyfansoddi sut mae'r sgôr yn perthyn i'r recordiad er mwyn galluogi asesiad cywir o'r darn. Mae'r enghreifftiau canlynol yn darparu canllawiau ynglŷn â sut i asesu cyfansoddiad pan fydd gwahaniaethau amlwg rhwng y sgôr a'r recordiad.

1. **Mae'r sgôr yn gynrychioliad elfennol o ddarn sy'n cael ei wireddu'n llwyr ar recordiad a gynhyrchwyd gan gyfrifiadur neu recordiad byw a gynhyrchwyd gan y dysgwr a neb arall.** Gall hyn ddigwydd pan fydd dysgwr wedi cyfansoddi darn gan ddefnyddio pecyn dilyniannu nad yw'n darparu sgôr ac sydd wedyn wedi ysgrifennu sgôr, naill ai â llaw neu ar becyn meddalwedd gwahanol. Oherwydd bod y sgôr a'r recordiad wedi cael eu cynhyrchu gan y dysgwr a neb arall, gellir dilysu mai gwaith y dysgwr ydyw. Yn yr achos hwn dylai'r athro asesu'r gerddoriaeth ar y recordiad yn ei chyfanrwydd, a defnyddio'r sgôr fel canllaw i'r darn.
2. **Mae'r sgôr yn gynrychioliad o'r cyfansoddiad ac mae fersiwn gwell o'r cyfansoddiad wedi cael ei recordio gyda cherddorion eraill.** Mae'n rhaid rhoi cydnabyddiaeth lawn i gyfraniad cerddorion eraill at y perfformiad yn y log cyfansoddi ac ni ellir rhoi cydnabyddiaeth i'r dysgwr am unrhyw fyrfyfyrion gan berfformwyr eraill.
3. **Mae'r sgôr wedi cael ei hysgrifennu'n gyflawn ar feddalwedd Sibelius ac mae'r cyfansoddiad wedi ei recordio'n llawn gan gerddorion eraill.** Yn yr achos hwn, mae'n rhaid i'r athro asesu'r sgôr a defnyddio'r recordiad fel canllaw, ac mae'n rhaid i'r athro anwybyddu unrhyw wahaniaethau yn y recordiad wrth asesu'r gwaith.

Goruchwyllo a Monitro

- Ni chyfyngir ar faint o amser mae dysgwyr yn ei dreulio ar eu cyfansoddiadau a gwerthusiadau, er na fydd y briff a osodir gan CBAC yn cael ei ryddhau tan 1 Medi'r flwyddyn academaidd yr ymgymmerir â'r asesiad.
- Gall athrawon roi arweiniad a chymorth i'r dysgwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall yn iawn beth yw gofynion Uned 2 yn cynnwys y briffiau cyfansoddi, y gwerthusiad a'r grid asesu. Cyn dechrau ar y broses gyfansoddi, gall athrawon roi cyngor i'r dysgwyr ar ba mor addas yw eu hymagwedd tuag at y briff a ddewiswyd.
- Pan fydd y gwaith cyfansoddi wedi ei ddechrau, mae'n rhaid cyfyngu'r adborth i gyngor cyffredinol ar beth sydd angen ei wella. **Ni** ddylai athrawon roi canllawiau penodol ynglŷn â sut i gyflawni'r gwelliannau hynny.
- Ar ôl cyflwyno'r gwaith i'r athro ei asesu, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach.
- Yn ystod y cyfnod cyfansoddi, mae'n rhaid i athrawon weld pob cyfansoddiad **dair** gwaith yn ystod y broses er mwyn gallu dilysu'r gwaith fel gwaith y dysgwr ei hun.
- Rhaid i athrawon weld un fersiwn drafft o'r gwerthusiad ond nid oes hawl ganddynt ddarparu adborth ysgrifenedig cyn cyflwyno'r gwaith yn derfynol. Rhaid cyfyngu unrhyw adborth i gyngor cyffredinol yn unig, ni chaiff athrawon gynnig arweiniad penodol ar sut i wella'r gwaith. Rhaid i'r athro lofnodi'r log cyfansoddi er mwyn dilysu mai gwaith y dysgwr ei hun yw'r gwerthusiad.

Cydnabyddiaethau

Mae'n rhaid rhoi cydnabyddiaeth amlwg i'r holl ddeunyddiau ffynhonnell eilaidd, fel dyfyniadau cerddorol neu samplau a gyfansoddwyd ymlaen llaw, ac mae'n rhaid nodi unrhyw waith nad yw disgybl yn llwyr gyfrifol am ei gyflawni. Mae'n rhaid rhestru pecynnau meddalwedd gydag esboniad o sut mae'r rhain wedi'u defnyddio. Mae'n rhaid i'r aseswr ystyried y wybodaeth hon wrth farcio pob cyfansoddiad, a lle bydd ymgeisydd wedi dibynnu gormod ar samplau/dolenni a recordiwyd ymlaen llaw, bydd hyn yn arwain at ddyfarnu marc is. Mewn achosion eithafol gallai dyfyniadau heb gydnabyddiaeth arwain at ymchwiliad i gamymddygiad. Hefyd, mae'n rhaid i ymgeiswyr gydnabod unrhyw ddylanwadau cerddorol a ddefnyddiwyd yn y log cyfansoddi.

Tystiolaeth asesu

- Mae'n rhaid paratoi recordiad sain o'r holl gyfansoddiadau a'u cadw yn y ganolfan, oni bai bod CBAC yn gwneud cais i'w safoni.
- Mae'n rhaid cadw'r portffolio cyflawn, yn cynnwys y darnau **a'r** gwerthusiad, gyda'i gilydd gyda'r **sgôr/disgrifiad ysgrifenedig a dalen ganllaw** ar gyfer pob darn.
- Mae'n bwysig bod yr asesiad yn cael ei fonitro'n drylwyr gan y canolfannau er mwyn sicrhau mai gwaith y dysgwyr eu hunain a asesir a neb arall. Mae'n ofynnol i bob dysgwr gwblhau **log cyfansoddi na asesir** a llofnodi datganiad dilysu sy'n ardystio mai eu cyfansoddiad nhw eu hunain yw'r cyfansoddiad dan sylw; mae'n rhaid i'r athrawon **gydllofnodi'r log** yn ystod y broses er mwyn dilysu eu bod wedi gweld y **gwaith ar y gweill dair gwaith**, a'u bod wedi cymryd pob cam rhesymol i ddilysu hyn. Defnyddiwch y templed log a ddarperir ar wefan CBAC.
- Mae'n rhaid i **bob dysgwr** gwblhau'r dogfennau dilysu, nid dim ond y rhai a ddewisir ar gyfer sampl y safonwr.

Safoni a chymedroli

Pan fydd mwy nag un athro mewn canolfan, mae'n hanfodol safoni gwaith o'r holl grwpiau addysgu yn fewnol. Pwrpas hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon unigol gytûn ar gyfer yr holl grwpiau addysgu sydd dan sylw. Fel arfer bydd CBAC yn safoni'n allanol ym mis Mai. Bydd pob canolfan yn cael adborth manwl o'r broses safoni allanol hon.

Cyflwyno gwaith sampl a marciau

- Mae angen i ganolfannau gyflwyno marciau ar-lein ar gyfer gwaith a asesir yn fewnol erbyn dyddiad penodedig ym mis Mai.
- Pan fydd y marciau wedi'u cyflwyno i CBAC, bydd y system ar-lein yn cymhwyso'r fformiwla sampl sy'n seiliedig ar drefn restrol gyffredinol yr holl waith a gyflwynwyd, a bydd y sampl o ddysgwyr y mae eu gwaith yn cael ei ddewis ar gyfer safoni yn cael ei nodi yn syth.
- Mae'n rhaid cyflwyno tystiolaeth portffolio ar gyfer y sampl safoni ar-lein drwy wefan CBAC. Sylwer y dylai'r recordiad fod ar fformat mp3 er mwyn lleihau maint y ffeil (cyfyngir maint ffeil unigol i uchafswm o 20MB). Gellir derbyn dogfennau ar ffurf PDF, Word neu unrhyw fformat arall sydd ar hyn o bryd yn gydnaws â Microsoft Office 2010.
- Mae'n rhaid i'r recordiadau a ffurflenni dilysu dysgwyr sydd yn y sampl gael eu cyflwyno ar-lein erbyn y dyddiad penodedig ym mis Mai.

Asesu: cynlluniau marcio a chanllawiau ychwanegol

Mae'n ofynnol i athrawon ddefnyddio'r cynlluniau marcio a'r canllawiau ychwanegol yn Atodiad B y fanyleb hon wrth gynnal asesiad mewnol o Uned 2. Pwrpas hyn yw cyflwyno system sy'n cysylltu'r amcanion asesu â marciau ac sy'n helpu i wahaniaethu'n glir rhwng y lefelau cyrhaeddiad amrywiol. Bydd y cynlluniau marcio ar eu mwyafr gwerthfawr pan gânt eu defnyddio law yn llaw â chanllawiau ac enghreifftiau o waith sydd wedi'i asesu, fydd ar gael yn y canllawiau athrawon er mwyn helpu canolfannau i adnabod safon y gwaith sy'n gysylltiedig â'r bandiau marciau penodol.

4 GWYBODAETH DECHNEGOL

4.1 Cofrestru

Cymhwyster llinol yw hwn y mae'n rhaid cymryd yr holl asesiadau ar ddiwedd y cwrs. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod mis Mai/Mehefin bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon. Bydd y cyfle asesu cyntaf yn Haf 2018.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Rhaid i ymgeiswyr ailsefyll pob cydran arholiad yn yr un gyfres.

Gellir trosglwyddo marciau asesu di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb. Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll cydran Asesu Di-arholiad (yn hytrach na throsglwyddo marc yr Asesiad Di-arholiad blaenorol), yna'r marc newydd fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'n is na'r marc o'r ymgais flaenorol.

Os ardystiodd ymgeisydd ar ddau achlysur neu fwy o'r blaen, y marc o'r asesiad di-arholiad mwyaf diweddar sy'n cael ei drosglwyddo, heb ystyried a yw'r marc hwnnw'n uwch neu'n is (oni bai bod y marc yn absennol).

Mae'r codau cofrestru'n cael eu dangos isod.

Teitl y cymhwyster	Codau Cofrestru	
	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg
TGAU CBAC mewn CERDDORIAETH	3660QS	3660CS

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Caiff cymwysterau TGAU eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A* i G, lle A* yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

ATODIAD A

Uned 1: Perfformio (AA1 ac AA4)

Mae Atodiad A yn cynnwys y wybodaeth ganlynol mewn perthynas ag asesu Uned 1:

- gridiau asesu ar gyfer perfformiadau a nodiadau rhaglen
- canllawiau ar gyfer asesu Uned 1
- tabl o addasiadau ar gyfer lefel anhawster y darnau
- tablau yn dangos lefel anhawster y darnau a berfformiwyd
- tabl o addasiadau i berfformiadau sy'n llai na 4 munud o hyd.

ATODIAD A

Grid asesu ar gyfer Uned 1: Perfformio

Dylid marcio pob darn a berfformir allan o 36. Gweler Adran 3.2 am ragor o fanylion am asesu.

- Dylid sefydlu'r band priodol ar gyfer pob colofn drwy benderfynu pa ddisgrifiad perfformiad sy'n adlewyrchu perfformiad yr ymgeisydd orau.
- Yna dylid sefydlu'r marc priodol drwy benderfynu **i ba raddau** y mae'r ymgeisydd **wedi bodloni meini prawf y band perthnasol**.
- Gall y cyfanswm marciau ar gyfer pob colofn adlewyrchu perfformiad ar fandiau gwahanol ar draws yr amcanion asesu, er enghraifft, gall ymgeisydd gyrraedd band 4 yng ngholofn 1, band 4 yng ngholofn 2 a band 3 yng ngholofn 3.
- Dylid cofio mai pwrpas y bandiau yw cynorthwyo'r broses farcio drwy ddynodi lefelau cyrhaeddiad unigol, ac nid ydynt yn cyfateb i ffiniau graddau.

	AA1 Perfformio â rheolaeth dechnegol, mynegiant a dehongliad		
Band	Cywirdeb	Rheolaeth dechnegol	Mynegiant a dehongliad
4	10-12 marc • Perfformiad cywir, yn sicr o ran rhythm a/neu draw • Cynnal tempo priodol drwy gydol y darn, sy'n arwain at berfformiad rhugl • Yr holl gyfarwyddiadau perfformio wedi'u dilyn yn briodol drwy gydol y perfformiad	10-12 marc • Techneg a thonyddiaeth sicr (lle bo'n briodol) drwy gydol y perfformiad • Rheolaeth sicr ar ansawdd (tôn) a'r defnydd o gyferbyniad yn gwbl briodol i'r gerddoriaeth. • Alldaflu da yn y perfformiad	10-12 marc • Perfformiad llawn mynegiant sy'n gweddu i'r arddull a ddewiswyd • Cyfathrebu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y gynulleidfa drwy gydol y perfformiad • Perthynas effeithiol â pherfformwyr eraill, lle bo'n briodol, sy'n arwain at berfformiad cytbwys • Cydbwysedd effeithiol rhwng traciau byw a thraciau a recordiwyd ymlaen llaw, lle bo'n briodol

3	7-9 marc - Mae'r perfformiad yn gywir ar y cyfan o ran rhythm a/neu draw, ond ceir ambell i lithriad - Cynnal tempo priodol ar y cyfan, ond effeithir ar ruglder y perfformiad yn achlysurol - Y rhan fwyaf o'r cyfarwyddiadau perfformio wedi'u dilyn yn briodol yn ystod y perfformiad	7-9 marc - Techneg a thonyddiaeth ddibynadwy ar y cyfan (lle bo'n briodol) drwy gydol y perfformiad - Rheolaeth gyffredinol sicr ar soniaredd (tôn) a'r defnydd o gyferbyniad yn briodol i'r gerddoriaeth ar y cyfan - Alldaflu da ar y cyfan yn y perfformiad	7-9 marc - Perfformiad mynegiannol yn gyffredinol sydd ar y cyfan yn gweddu i'r arddull a ddewiswyd - Cyathrebu digonol sy'n cynnal diddordeb y gynulleidfa yn ystod y rhan fwyaf o'r perfformiad - Perthynas effeithiol â pherfformwyr eraill yn gyffredinol, lle bo'n briodol, gan arwain at berfformiad cytbwys ar y cyfan - Cydbwysedd effeithiol ar y cyfan rhwng traciau byw a thraciau a recordiwyd ymlaen llaw, lle bo'n briodol
2	4-6 marc - Perfformiad llai sicr o ran rhythm a/neu draw gyda gwallau rheolaidd - Tempo anghyson sy'n effeithio ar ruglder, ac mae hynny'n digwydd yn amlach - Y cyfarwyddiadau perfformio wedi'u dilyn yn anghyson drwy gydol y perfformiad	4-6 marc - Techneg a thonyddiaeth anghyson (lle bo'n briodol) drwy gydol y perfformiad - Rheolaeth anghyson ar ansawdd (tôn) gydag ychydig o gyferbyniad yn y gerddoriaeth pan fydd angen hynny - Alldaflu anghyson yn y perfformiad	4-6 marc - Perfformiad anghyson nad yw bob amser yn gydnaws â'r arddull a ddewiswyd - Cyathrebu anghyson â'r gynulleidfa - Ychydig o deimlad o berthynas a chydbwysedd rhwng rhannau pan fydd perfformwyr eraill yn bresennol - Ychydig o gydbwysedd effeithiol rhwng traciau byw a thraciau a recordiwyd ymlaen llaw, lle bo'n briodol
1	1-3 marc - Gwallau o ran rhythm a/neu draw drwy gydol y darn - Diffyg rhuglder yn y perfformiad ac effeithir arno gan oedi rheolaidd - Ymateb cyfyngedig i gyfarwyddiadau perfformio drwy gydol y perfformiad	1-3 marc - Techneg a thonyddiaeth gyfyngedig (lle bo'n briodol) drwy gydol y perfformiad - Rheolaeth gyfyngedig ar ansawdd (tôn) gydag ychydig neu ddim cyferbyniad yn y gerddoriaeth pan fydd angen hynny - Alldaflu cyfyngedig yn y perfformiad	1-3 marc - Perfformiad cyfyngedig gydag ychydig neu ddim dealltwriaeth o'r arddull a ddewiswyd - Cyathrebu cyfyngedig â'r gynulleidfa - Perthynas gyfyngedig pan fydd perfformwyr eraill yn bresennol, gan arwain at ddiffyg cydbwysedd yn y perfformiad - Cydbwysedd aneffeithiol rhwng traciau byw a thraciau a recordiwyd ymlaen llaw, lle bo'n briodol
0	0 marc Perfformiad gwallus o ran rhythm a/neu draw ac ni ddilynir cyfarwyddiadau perfformio	0 marc Dim tystiolaeth o dechneg, rheolaeth ar ansawdd (tôn) nag alldaflu	0 marc Dim teimlad o gysylltiad, mynegiant, perthynas, cydbwysedd na chyathrebu

Grid asesu ar gyfer Uned 1: Nodiadau Rhaglen

- Dylid sefydlu'r band priodol drwy benderfynu pa ddisgrifiad perfformiad sy'n adlewyrchu perfformiad yr ymgeisydd orau.
- Yna dylid sefydlu'r marc priodol drwy benderfynu **i ba raddau** y mae'r ymgeisydd **wedi bodloni meini prawf y band perthnasol**.
- Dylid cofio mai pwrpas y bandiau yw cynorthwyo'r broses farcio drwy ddynodi lefelau cyrhaeddiad unigol, ac nid ydynt yn cyfateb i ffiniau graddau.

Band	AA4 Defnyddio sgiliau arfarnu i wneud penderfyniadau gwerthusol a beirniadol ynglŷn â'u cerddoriaeth eu hunain a cherddoriaeth pobl eraill.
4	10-12 marc • Esboniad trylwyr o sut mae elfennau cerddorol yn cael eu defnyddio yn y darn • Esboniad trylwyr o arddull a chyd-destun y darn yn cynnwys sut mae'r gerddoriaeth yn cysylltu â'r maes astudio • Gwerthusiad manwl o ofynion technegol y gerddoriaeth gan ddangos lefel uchel o ddealltwriaeth o'r offeryn/llais/technoleg a ddefnyddir • Mae'r nodiadau rhaglen wedi eu trefnu'n dda iawn ac wedi eu cyflwyno mewn modd priodol iawn. Defnydd cywir a phriodol o derminoleg y pwnc, gyda gramadeg, atalnodi a sillafu cywir.
3	7-9 marc • Esboniad cyffredinol o sut mae elfennau cerddorol yn cael eu defnyddio yn y darn • Esboniad cyffredinol o arddull a chyd-destun y darn yn cynnwys sut mae'r gerddoriaeth yn cysylltu â'r maes astudio • Gwerthusiad cyffredinol o ofynion technegol y gerddoriaeth gan ddangos lefel dda o ddealltwriaeth o'r offeryn/llais/technoleg a ddefnyddir • Mae'r nodiadau rhaglen yn drefnus gan mwyaf ac wedi eu cyflwyno mewn modd priodol. Defnydd cywir a phriodol o derminoleg y pwnc ar y cyfan, gyda gramadeg, atalnodi a sillafu cywir.
2	4-6 marc • Esboniad anghyson o sut mae elfennau cerddorol yn cael eu defnyddio yn y darn • Peth esboniad o arddull a chyd-destun y darn yn cynnwys ei gysylltu'n rhannol â'r maes astudio • Gwerthusiad anghyson o ofynion technegol y gerddoriaeth gan ddangos peth dealltwriaeth o'r offeryn/llais/technoleg a ddefnyddir • Mae ychydig o drefn ar y nodiadau rhaglen. Peth defnydd o derminoleg y pwnc, gyda gramadeg, atalnodi a sillafu eithaf cywir.

1	1-3 marc • Esboniad cyfyngedig o sut mae elfennau cerddorol yn cael eu defnyddio yn y darn. • Esboniad cyfyngedig o arddull a chyd-destun y darn ond mae'r ddealltwriaeth yn gyfyngedig o ran sut mae'n cysylltu â'r maes astudio • Gwerthusiad cyfyngedig o ofnion technegol y gerddoriaeth gan ddangos ychydig o ddealltwriaeth o'r offeryn/llais/technoleg a ddefnyddir • Mae'r nodiadau rhaglen yn dangos tystiolaeth gyfyngedig o drefn. Defnydd cyfyngedig o derminoleg y pwnc gyda gwallau o ran gramadeg, atalnodi a sillafu yn effeithio ar eglurder y cyfathrebu.
0	0 marc • Dim esboniad o sut mae elfennau cerddorol yn cael eu defnyddio yn y darn • Dim esboniad o arddull a chyd-destun y darn na chysylltiad amlwg â'r maes astudio • Dim gwerthusiad o ofnion technegol y gerddoriaeth na dealltwriaeth o'r offeryn/llais/technoleg a ddefnyddir • Dim defnydd cywir o derminoleg gerddorol.

Canllawiau ar gyfer asesu Uned 1: Perfformio

Mae'r grid perfformio yn cael ei rannu yn dair colofn:

- cywirdeb
- rheolaeth dechnegol
- mynegiant a dehongliad

Colofn 1: Cywirdeb

Defnydd cywir o rhythm, traw a thempo ac ymateb cywir i gyfarwyddiadau perfformio.

Mae'r holl ddysgwyr yn cael eu hasesu ar gywirdeb y rhythm a/neu'r traw mewn perthynas â sgôr nodiant, lle bo'n briodol. Pan nad oes sgôr ar gael, mae disgwyl i'r dysgwr ddarparu dalen ganllaw fanwl yn cynnwys cordiau, alaw, tempo a chyfarwyddiadau perfformio.

Bydd safonwyr yn defnyddio'u barn broffesiynol wrth asesu manwl gywirdeb perfformiad yn erbyn dalen ganllaw yn yr achosion hynny lle dewisodd ymgeiswyr ychwanegu at y ddalen ganllaw yng nghyd-destun yr arddull.

Yn achos perfformiadau **bît-bocsio**, **DJ-io**, **rapio** ac **MC-io**, pan fydd darparu manylion am alaw a chordiau ar ddalen ganllaw efallai'n amhosibl, mae'n rhaid i ddysgwyr ddarparu manylion am rhythm, tempo a chyfarwyddiadau perfformio. Mewn perfformiadau o'r fath, bydd dysgwyr yn cael eu hasesu, yn ôl yr hyn sy'n briodol ar gyfer y darn, ar eu gallu i gadw amser gyda thrac cyfeiliant, pontio'n esmwyth, defnyddio tempo priodol a dilyn cyfarwyddiadau perfformio.

Mewn perthynas â pherfformiadau **dilyniannu**, mae'n rhaid i'r athrawon asesu'r traciau a recordiwyd yn ogystal â'r trac(iau) byw.

Bydd dysgwyr sy'n cynnig **chwarae'n fyrfyfyr** yn cael eu hasesu ar p'un a ydynt yn chwarae'n gywir yn unol â'r symbyliad sydd wedi'i ddynodi, e.e. a yw'r perfformiad yn gweddu i'r dilyniad cordiau neu'n defnyddio nodau'r raddfa a ddewiswyd.

Colofn 2: Rheolaeth Dechnegol

Rheolaeth ar yr offeryn/llais/offer, ansawdd ac alldaflu

Rheolaeth ar dechneg chwarae

Mae'r pwynt bwled cyntaf ar y grid asesu yn asesu gallu'r dysgwr i reoli techneg offerynnol/lleisiol neu offer technegol fel troellfyrddau. **Nid** yw'r nodweddion technegol yn y rhestrau yn gysylltiedig â safon perfformio, ac mae'n rhaid i athrawon ystyried i ba raddau mae technegau **perthnasol** yn cael eu defnyddio yn y perfformiad, yn ôl yr hyn sy'n briodol i arddull y gerddoriaeth. Nid yw'r rhestr yn gyflawn ac nid oes disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio pob techneg ar y rhestr. Os ydych yn ansicr ynglŷn â defnyddio techneg benodol, dylai canolfannau gysylltu â CBAC am gyngor.

1. Llais

- tonyddiaeth
- geirio, gan gynnwys y defnydd o felisma a/neu eiriau sillafog
- cynaniad gan gynnwys cychwyniadau lleisiol e.e. glotol
- rheolaeth ar yr anadl a chynnal yr anadl
- technegau lleisiol gan gynnwys vibrato

2. Llinynnau

(a) *Â bwa*

- tonyddiaeth
- rheolaeth ar y bwa
- cydsymud llaw dde/llaw chwith
- lleoliadau'r llaw chwith
- deheurwydd byseddu
- technegau chwarae e.e. vibrato, pizzicato

(b) *Wedi'u plycio/tynnu*

- tiwnio
- cydsymud llaw dde/llaw chwith
- lleoliadau'r llaw
- deheurwydd byseddu
- technegau plycio/tynnu
- defnyddio glissando
- rheolaeth ar y pedalu

3. Chwythbren

- tonyddiaeth
- rheolaeth ar yr anadl
- defnydd o fyseddu a deheurwydd byseddu
- technegau chwarae, e.e. tafodi, llithriad

4. Pres

- tonyddiaeth
- rheolaeth ar yr anadl
- ystwythder gwefusau
- defnyddio technegau e.e. tafodi, llithriad, glissando
- defnyddio mudyddion

5. **Offer taro**

(a) *Cit drymiau*

- cydsymud dwylo a thraed
- deheurwydd â ffyn
- trawiadau unigol a dwbl
- llenwi
- rhugliad
- fflamiau a llusgiadau
- trawiadau ymyl
- tripledi

(b) *Cerddorfaol*

- deheurwydd â ffyn/morthwylion
- rheolaeth ar amrywiaeth o offerynnau
- rheolaeth ar y pedalau/damperau
- tonyddiaeth (timpani)
- technegau offerynnau taro llaw, e.e. addasu'r traw, pylu/lladd y sain, gwanychu

6. **Piano**

- cydsymud llaw dde/llaw chwith
- cydbwysedd rhwng rhannau
- deheurwydd byseddu
- techneg pedalu
- cyffyrddiad

7. **Allweddellau Electronig/Organ**

- defnyddio lleisiau/tonau/stopiau
- cydsymud llaw dde/llaw chwith
- deheurwydd byseddu
- techneg pedalu
- cydsymud seinglawr a phedal (lle bo'n briodol)

8. **DJ-io**

- troellfyrddu
- defnyddio hafalydd (EQ)
- defnyddio effaith (FX)
- defnyddio amrywiaeth o dechnegau e.e. crafu, graddoli, atsain/atseinedd, ac ati.
- cymysgu curiad
- paru curiadau yn cynnwys symud traw neu ymestyn amser

9. **Rapio/MC-io**

- geirio yn cynnwys eglurder
- defnyddio cyflythreniad
- rheolaeth ar yr anadl
- cyfuniad o sgiliau technegol a lleisiol
- defnyddio galw ac ateb

10. **Bît-bocsio**

- defnyddio'r llais i greu amrywiaeth mewn soniaredd, gan gynnwys trebl a bas
- rheolaeth ar yr anadl, yn cynnwys synau am i mewn ac am allan
- ansawdd trwynol
- techneg microffon

11. **Dilyniannu**

- defnyddio effeithiau, fel panio, datsain/datseinedd, oediad, ac ati.
- deheurwydd byseddu
- defnyddio dulliau llenwi
- defnyddio cynaniad
- defnyddio cwanteiddio

Rheoli ansawdd (ansawdd tôn)

Mae ail bwynt bwled y grid asesu yn asesu gallu'r dysgwr i **reoli** ansawdd yr offeryn, offer neu lais wrth berfformio, yn hytrach nag ansawdd tôn yr offeryn, yr offer neu'r llais ei hun. Mae hyn yn cynnwys gallu'r dysgwr i effeithio ar yr ansawdd tôn drwy gydol y darn a'i amrywio, yn ôl yr hyn sy'n briodol i'r gerddoriaeth. Felly, **ni** asesir ansawdd tôn yr offeryn/llais/offer ei hun. Mae'n rhaid i athrawon ystyried bod y canlynol yn briodol i'r darn a'r offeryn/llais/offer (nid yw'r rhestr yn gyflawn ac nid oes rhaid i'r dysgwyr gynnwys popeth sydd ar y rhestr):

- i ba raddau mae'r ansawdd tôn yn cael ei reoli ar hyd ystod yr offeryn, yr offer neu'r llais
- y gallu i reoli'r ansawdd tôn drwy gydol y perfformiad
- defnyddio ansawdd tôn yn ôl yr hyn sy'n briodol i'r darn
- y gallu i amrywio ansawdd tôn yn ôl yr hyn sy'n briodol i'r darn
- defnyddio priodol o gynaniad/ technegau
- dewis a chymysgu ffynonellau sain
- defnyddio effeithiau i reoli ansawdd
- defnyddio mwyhad.

Rheoli alldafliaid dynameg

Mae trydydd pwynt bwled y grid asesu yn asesu gallu'r dysgwr i alldaflu'r perfformiad. Gall hyn gynnwys techneg microffon a mwyhau yn ôl yr hyn sy'n briodol i'r darn.

Colofn 3: Mynegiant a dehongliad

Mae pob dysgwr yn cael ei asesu ar ei allu i gyfathrebu perfformiad i gynulleidfa. Dylai athrawon ystyried y canlynol wrth asesu mynegiant a dehongliad:

- arddull y gerddoriaeth a berfformir, gan gynnwys confensiynau perfformio a chysondeb arddull
- gallu'r dysgwr i gynnal diddordeb y gynulleidfa drwy gydol y perfformiad, gan gynnwys y gallu i gyfathrebu'n gerddorol
- gallu'r dysgwr i weithio'n effeithiol gyda pherfformwyr eraill a/neu draciau a recordiwyd ymlaen llaw er mwyn creu cydbwysedd yn y perfformiad.

Nodiadau Rhaglen

Mae pob dysgwr yn cael i asesu ar ei allu i werthuso a gwneud penderfyniadau beirniadol ynglŷn â cherddoriaeth. Mae'n rhaid i athrawon ystyried y pwyntiau canlynol wrth asesu'r nodiadau rhaglen.

- Nid yw'n ofynnol i'r dysgwyr ystyried pob elfen gerddorol yn drylwyr, ond dylai'r rhai a ddewisir gael eu hystyried yn drylwyr drwy gydol y darn cyfan. Dylai dysgwyr ddewis nodweddion diddorol ym mhob elfen o'r gerddoriaeth.
- Nid oes disgwyl i'r dysgwyr sy'n dewis gwerthuso'r defnydd o harmoni roi dadansoddiad cordiol manwl fesul bar. Ar lefel TGAU, mae disgwyl bod dysgwyr yn rhoi sylwadau ar y mathau o gordiau a ddefnyddir yn y darn ac yn adnabod nodweddion harmonig e.e. diweddebau, dilyniadau cordiau syml, y defnydd o anghyseindedd ac ati.

Tabl o addasiadau ar gyfer lefel anhawster y darnau

Mae safon perfformio TGAU cerddoriaeth yn cyfateb yn gyffredinol i radd 3 yr arholiadau cerddoriaeth graddedig. Mae'n rhaid addasu cyfanswm y marc crai ar gyfer **pob** darn yn unol â lefel anhawster y darn, fel y nodir hynny yn y tabl isod.

Marc crai ar gyfer pob darn a berfformiwyd	Lefel anhawster		
	Haws na'r lefel safonol	Lefel anhawster safonol (cyfatebol i radd 3 GME)	Anoddach na'r lefel safonol
36	32	36	36
35	32	35	36
34	31	34	36
33	30	33	36
32	29	32	35
31	28	31	34
30	27	30	33
29	26	29	32
28	25	28	31
27	24	27	30
26	23	26	29
25	23	25	28
24	22	24	26

23	21	23	25
22	20	22	24
21	19	21	23
20	18	20	22
19	17	19	21
18	16	18	20
17	15	17	19
16	14	16	18
15	14	15	17
14	13	14	15
13	12	13	14

12	11	12	13
11	10	11	12
10	9	10	11
9	8	9	10
8	7	8	9
7	6	7	8
6	5	6	7
5	5	5	6
4	4	4	4
3	3	3	3
2	2	2	2
1	1	1	1
0	0	0	0

Lefel anhawster y darnau a berfformiwyd

Mae rhestr o ddarnau gyda'u safonau mewn perthynas â'r arholiadau cerddoriaeth graddedig i'w chael ar wefan ddiogel CBAC. Mae'n rhaid penderfynu ar lefel anhawster unrhyw ddarn **arall** o gerddoriaeth nad yw wedi'i gynnwys ar y rhestr, neu yn y meysydd llafur cerddoriaeth graddedig, drwy ddefnyddio'r disgrifiadau yn y tablau isod.

Nid yw'r disgrifiadau yn gyflawn; ac ni fydd pob darn yn cynnwys yr holl nodweddion a restrir. Wrth ddewis y safon ar gyfer pob darn, dylai athrawon ddefnyddio eu barn broffesiynol a chwilio am y ffit orau.

Os nad yw'r offeryn neu nodweddion y darn a ddewisir i'w berfformio wedi'u cynnwys yn y rhestrau isod, neu os ydych yn ansicr ynglŷn â safon y darn, dylai canolfannau gysylltu â CBAC am gyngor.

Nodweddion cyffredinol ar gyfer pob darn offerynnol a lleisiol

Haws na'r lefel safonol	• Darn mewn cywair hawdd i'r offeryn • Rhythmau syml ac ystod y traw yn fach gyda chyfyngau syml • Ychydig o gyferbyniadau dynameg • Adeiledd ac adeiledd brawddegau syml neu ailadroddus • Tempo cyson • Un math o ansawdd neu dôn yn ofynnol, gyda newidiadau cyfyngedig o ran cynaniad • Arddulliadol syml
Lefel anhawster safonol	• Darn mewn cywair hawdd neu gymedrol i'r offeryn • Bydd y rhythmau yn amrywiol, yn cynnwys nodau dot neu dripledi a'r ystod traw yn gymharol eang gyda chyfyngau mwy • Cyferbyniadau dynameg yn cynnwys crescendo a diminuendo • Adran gyferbyniol neu adran â gofynion technegol gwahanol neu frawddegau o hyd gwahanol • Cyferbyniad posibl mewn tempo • Ychydig o gyferbyniad mewn ansawdd neu ansawdd tŷn a chynaniad

	• Ychydig o heriau arddulliadol
Anoddach na'r lefel safonol	• Darn mewn unrhyw gywair sy'n briodol i'r offeryn • Darn sy'n dangos rhai rhythmau cymhleth ac ystod traw eang ar gyfer yr offeryn • Bydd y darn a ddewisir yn caniatáu mwy o bwyslais ar ddehongli • Ystod lawn o ddynmeg • Nifer o gyferbyniadau o ran gofynion technegol ac adeiledd brawddegau • Cyferbyniadau mewn tempo neu dempo heriol • Cyferbyniadau o ran ansawdd neu ansawdd tôn heriol gyda chynaniad mwy cymhleth • Cyferbyniadau o ran arddull neu fwy o heriau arddulliadol

Darnau lleisiol

Haws na'r lefel safonol	• Darnau gydag ystod ganolog, a'r ystod o fewn wythfed • Ambell naid • Brawddegau byr
Lefel anhawster safonol	• Ystod hyd at 10fed • Ambell naid, efallai, hyd at 4ydd, 5ed neu wythfed • Hyd brawddegau rheolaidd
Anoddach na'r lefel safonol	• Ystod ehangach yn defnyddio rhannau uchaf ac isaf o gwmpasran y llais • Brawddegau yn gofyn am reolaeth gyson ar yr anadl • Y darn yn gofyn am lefel dda o gynnal y llais a'i reoli

Darnau ar gyfer allweddell (yn cynnwys darnau piano, allweddellau ac organ)

Haws na'r lefel safonol	• Ychydig o newid lleoliad llaw a/neu ddwylo yn symud gyda'i gilydd • Cordiau yn y llaw chwith a'r alaw yn y llaw dde • Newidiadau syml yn unig i'r cordiau (unwaith neu ddwywaith bob bar) • Ychydig neu ddim defnydd o'r pedal cynnal (piano) • Defnyddio un neu ddau o'r stopiau llais (organ neu allweddellau)
Lefel anhawster safonol	• Dwylo'n symud yn annibynnol ar brydiau ac yn symud o gwmpas yr allweddellau • Mwy o newid cordiau (yn cyflymu tuag at ddiweddebau) • Defnydd o'r pedal cynnal (piano) • Newidiadau o ran stopiau llais (organ neu allweddellau)

Anoddach na'r lefel safonol	• Defnydd ehangach o'r allweddell a/neu neidiau mwy • Dwylo yn symud yn annibynnol y rhan fwyaf o'r amser • Newidiadau cymhleth • Defnydd rheolaidd o'r pedal cynnal (piano) lle bo'n briodol • Defnydd o nifer o wahanol stopiau llais, efallai wedi'u cyfuno (organ neu allweddellau) lle bo'n briodol • Defnydd o bedalau organ lle bo'n briodol
-----------------------------------	---

Darnau llinynnau (yn cynnwys y feiolin, fiola, sielo a'r bas dwbl)

Haws na'r lefel safonol	- Defnyddio llinynnau agored a'r safle cyntaf yn bennaf - Ychydig o newid ar leoliad y llaw - Llithro'r bwa'n unigol ar bob nodyn
Lefel anhawster safonol	- Defnyddio nifer o safleoedd hyd at y 4ydd - Mwy o newid ar leoliad y llaw - Defnyddio'r bwa cyfan ar gyfer brawddegau sy'n llithro
Anoddach na'r lefel safonol	- Defnyddio safleoedd y tu hwnt i'r 4ydd - Defnyddio'r bwa ar draws y llinynnau - Cynnwys harmonigau efallai - Defnydd o dechnegau perfformio, e.e. vibrato

Telyn

Haws na'r lefel safonol	- Alaw syml wedi'i rhannu rhwng y ddwy law - Rhai cordiau 2-3 nodyn wedi'u rhannu rhwng y ddwy law - Rhai patrymau triadol wedi'u rhannu rhwng y ddwy law - Ystod gyfyng - Defnydd o'r ddwy law ar wahân ar y cyfan - Defnydd cyfyngedig o'r 4ydd bys
Lefel anhawster safonol	- Defnydd o un llaw ar gyfer yr alaw a'r llaw arall ar gyfer y cyfeiliant - Darnau graddfaol yn y ddwy law - Rhan annibynnol yn y ddwy law - Defnydd o'r 4 bys (bawd, blaen, canol a phedwerydd) - Defnydd o wythfedau yn y llaw chwith - Defnydd o glissandi - Tapio/cnocio rhythmau syml ar fwrdd sain

Anoddach na'r lefel safonol	• Cordiau mwy llawn yn y ddwy law • Cordiau sy'n fwy nag wythfed • Defnydd o gordiau wedi'u gwasgaru • Darnau graddfaol ac arpeggi wedi'u rhannu rhwng y ddwy law dros ystod ehangach o wythfedau • Darnau arpeggio â phwyslais amlwg ar y thema yn y gwead • Newidiadau pedal/lifer • Defnydd o harmonigau
-----------------------------------	---

Darnau llinynnol (yn cynnwys gitâr, gitâr fas a sitar)

Haws na'r lefel safonol	• Llinynnau agored yn bennaf a hyd at y 3ydd safle • Defnyddio plectrwm neu ddau fys cyntaf y llaw blycio
Lefel anhawster safonol	• Symudiad hyd at y 5ed safle • Defnyddio plectrwm neu ddau fys cyntaf y llaw blycio • Cordiau barre
Anoddach na'r lefel safonol	• Newid safleoedd cyflym neu aml, a symudiad y tu hwnt i'r 5ed safle • Defnydd o blectrwm neu holl fysedd y llaw blycio • Technegau cribell a gwanychu â llaw

Darnau chwythbren a phres

Haws na'r lefel safonol	• Brawddegau byr yn gofyn am reolaeth elfennol ar yr anadl • Ystod fach i'r darn, hyd at 1 ½ wythfed • Angen peth rheolaeth ar y genau
Lefel anhawster safonol	• Brawddegau wedi'u cynnal • Defnyddio llithro a thafodi • Ystod hyd at ddau wythfed • Rheolaeth ar y genau i newid traw
Anoddach na'r lefel safonol	• Rheolaeth ar yr anadl i gynnal brawddegau melodig hir • Ystod fwy llawn o gynaniad • Defnyddio hyd at ystod lawn yr offeryn • Angen rheolaeth fwy cymhleth ar y genau

Darnau offerynnau taro (yn cynnwys cit drymiau, offerynnau taro tiwniedig a heb eu tiwnio)

Haws na'r lefel safonol	• Llenwi syml • Rhythmau amser pedwarplyg syml • Darnau yn gofyn am ychydig o newid offerynnau taro neu ddim o gwbl • Angen ychydig o dechnegau taro
Lefel anhawster safonol	• Llenwi • Darnau amser pedwarplyg syml yn defnyddio tripled • Darnau yn gofyn am ychydig o newid offerynnau taro • Angen peth amrywiad o ran technegau taro
Anoddach na'r lefel safonol	• Amser pedwarplyg syml a thriphlyg syml • Defnyddio addurnodau • Darnau yn gofyn am newid offerynnau taro • Angen cyferbyniad o ran technegau

Perfformiadau DJ-io

Haws na'r lefel safonol	Symud yn ôl ac ymlaen rhwng dau drac o fewn yr un genre a thraw a gyda BPM gwahanol
Lefel anhawster safonol	- Defnyddio tri thrac o fewn yr un genre a gyda BPM gwahanol - Defnyddio Hafalydd/Effaith neu Grafu
Anoddach na'r lefel safonol	- Defnyddio pedwar trac neu fwy o fewn yr un genre a gyda BPM gwahanol neu ddefnyddio tri thrac o genres gwahanol. - Defnyddio Hafalydd/Effaith a Chraffu

Perfformiadau Rapio/MC-io

Haws na'r lefel safonol	- Darn rhythmig elfennol - Lefel traw elfennol gydag ystod fach - Brawddegau byr
Lefel anhawster safonol	- Rhythmau cyflym - Cynnwys cytgan wedi'i chanu - Defnyddio newidiadau traw
Anoddach na'r lefel safonol	- Rhythmau cyflym yn cynnwys trawsacennu - Cynnwys cytgan wedi'i chanu - Brawddegau hir yn gofyn am reolaeth gyson ar yr anadl

Darnau bît-bocsio

Haws na'r lefel safonol	• Defnyddio'r geg yn unig • Dau batrwm ailadroddus syml
Lefel anhawster safonol	• Defnyddio'r geg a'r trwyn • Tri neu ragor o batrymau rhythmig
Anoddach na'r lefel safonol	• Defnyddio'r geg a'r trwyn • Tri neu ragor o batrymau rhythmig cymhleth, yn cynnwys ychydig o effeithiau sain a/neu alaw • Cynnwys dolen/pad KAOSS efallai

Darnau dilyniannu

Haws na'r lefel safonol	• Un trac byw annibynnol • Dau drac annibynnol wedi'u recordio ymlaen llaw (h.y. heb eu dyblu) • Defnyddio cyfleuster cwanteiddio
Lefel anhawster safonol	• Un trac byw annibynnol • Tri thrac annibynnol wedi'u recordio ymlaen llaw (h.y. heb eu dyblu) • Defnyddio cyfleuster cwanteiddio • Defnyddio o leiaf un effaith • Rhai rhythmau cymhleth • O leiaf un cyferbyniad o ran gwead • O leiaf un cyferbyniad o ran ansawdd
Anoddach na'r lefel safonol	• Dau drac byw annibynnol • Tri thrac annibynnol wedi'u recordio ymlaen llaw (h.y. heb eu dyblu) • Defnyddio cyfleuster cwanteiddio • Defnyddio o leiaf ddwy effaith • Rhythmau cymhleth • Amrywiaeth o ran gwead • Amrywiaeth o ran ansawdd

Tablau o addasiadau i berfformiadau sy'n llai na 4 munud

Cyfrifo'r marc terfynol i berfformiad Uned 1

Bydd yr arholwr ymweld yn marcio pob perfformiad yn unigol yn ôl y meini prawf sydd ar dudalennau 28 a 29, gyda chyfanswm allan o 72 i'w gyfrifo gan ddefnyddio'r fformiwla a roddwyd.

Hefyd, cyfrifir cyfanswm amser y perfformiadau mewn munudau ac eiliadau. Defnyddir y siart canlynol i benderfynu ar farc wedi'i addasu am y perfformio, os bydd y cyfanswm amser yn llai na 4 munud o hyd. Er enghraifft, pe byddai marc o 60 yn cael ei roi yn y lle cyntaf am berfformiad o 3 munud a 50 eiliad yna byddai'n derbyn marc wedi'i addasu o 53 oherwydd ei fod yn y band 3:30 i 3:59 o ran hyd.

Yna dylid ychwanegu'r marc allan o 12 a ddyfarnwyd am y nodyn rhaglen **at y marc wedi'i addasu am berfformio** i roi marc terfynol Uned 1. Dylid cyflwyno'r marc hwn wedyn drwy'r wefan ddiogel i gynhyrchu'r sampl i'w safoni.

Marc a ddyfarnwyd cyn yr addasiad amseru	Cyfanswm amser y perfformiad (munudau ac eiliadau)								
	4:00 neu mwy	3:30-3:59	3:00-3:29	2:30-2:59	2:00-2:29	1:30-1:59	1:00-1:29	0:30-0:59	O dan 0:30
72	72	63	54	45	36	27	18	9	0
71	71	62	53	44	36	27	18	9	0
70	70	61	53	44	35	26	18	9	0
69	69	60	52	43	35	26	17	9	0
68	68	60	51	43	34	26	17	9	0
67	67	59	50	42	34	25	17	8	0
66	66	58	50	41	33	25	17	8	0
65	65	57	49	41	33	24	16	8	0
64	64	56	48	40	32	24	16	8	0
63	63	55	47	39	32	24	16	8	0

62	62	54	47	39	31	23	16	8	0
61	61	53	46	38	31	23	15	8	0
60	60	53	45	38	30	23	15	8	0
59	59	52	44	37	30	22	15	7	0
58	58	51	44	36	29	22	15	7	0
57	57	50	43	36	29	21	14	7	0
56	56	49	42	35	28	21	14	7	0
55	55	48	41	34	28	21	14	7	0
54	54	47	41	34	27	20	14	7	0
53	53	46	40	33	27	20	13	7	0

52	52	46	39	33	26	20	13	7	0
51	51	45	38	32	26	19	13	6	0
50	50	44	38	31	25	19	13	6	0
49	49	43	37	31	25	18	12	6	0
48	48	42	36	30	24	18	12	6	0
47	47	41	35	29	24	18	12	6	0
46	46	40	35	29	23	17	12	6	0
45	45	39	34	28	23	17	11	6	0

Marc a ddyfarnwyd cyn yr addasiad amseru	Cyfanswm amser y perfformiad (munudau ac eiliadau)								
	4:00 neu fwy	3:30-3:59	3:00-3:29	2:30-2:59	2:00-2:29	1:30-1:59	1:00-1:29	0:30-0:59	O dan 0:30
72	72	63	54	45	36	27	18	9	0
71	71	62	53	44	36	27	18	9	0
70	70	61	53	44	35	26	18	9	0
69	69	60	52	43	35	26	17	9	0
68	68	60	51	43	34	26	17	9	0
67	67	59	50	42	34	25	17	8	0
66	66	58	50	41	33	25	17	8	0
65	65	57	49	41	33	24	16	8	0
64	64	56	48	40	32	24	16	8	0
63	63	55	47	39	32	24	16	8	0
62	62	54	47	39	31	23	16	8	0
61	61	53	46	38	31	23	15	8	0
60	60	53	45	38	30	23	15	8	0
59	59	52	44	37	30	22	15	7	0
58	58	51	44	36	29	22	15	7	0
57	57	50	43	36	29	21	14	7	0
56	56	49	42	35	28	21	14	7	0
55	55	48	41	34	28	21	14	7	0
54	54	47	41	34	27	20	14	7	0

53	53	46	40	33	27	20	13	7	0
52	52	46	39	33	26	20	13	7	0
51	51	45	38	32	26	19	13	6	0
50	50	44	38	31	25	19	13	6	0
49	49	43	37	31	25	18	12	6	0
48	48	42	36	30	24	18	12	6	0
47	47	41	35	29	24	18	12	6	0
46	46	40	35	29	23	17	12	6	0
45	45	39	34	28	23	17	11	6	0

ATODIAD B

Uned 2: Cyfansoddi (AA2 ac AA4)

Mae Atodiad B yn cynnwys y wybodaeth ganlynol mewn perthynas ag asesu Uned 2:

- gridiau asesu ar gyfer cyfansoddiadau a gwerthuso
- canllawiau ar gyfer asesu Uned 2
- cyngor ychwanegol ar gyfer cyfansoddi o fewn y meysydd astudio.

ATODIAD B

Grid asesu ar gyfer Uned 2: Cyfansoddi

Dylid marcio pob cyfansoddiad allan o 36. Gweler Adran 3.2 am ragor o fanylion am asesu.

- Dylid sefydlu'r band priodol **ar gyfer pob amcan asesu** drwy benderfynu pa ddisgrifiad perfformiad sy'n adlewyrchu perfformiad yr ymgeisydd orau.
- Yna dylid sefydlu'r marc priodol drwy benderfynu **i ba raddau** y mae'r ymgeisydd **wedi bodloni meini prawf y band perthnasol**.
- Gall y cyfanswm marciau ar gyfer pob colofn adlewyrchu perfformiad ar fandiau gwahanol ar draws yr amcanion asesu, er enghraifft, gall ymgeisydd gyrraedd band 4 ar gyfer AA2.1a yng ngholofn 1, band 4 ar gyfer AA2.1b yng ngholofn 2 a band 3 ar gyfer AA2.1c yng ngholofn 3.
- Dylid cofio mai pwrpas y bandiau yw cynorthwyo'r broses farcio drwy ddynodi lefelau cyrhaeddiad unigol, ac nid ydynt yn cyfateb i ffiniau graddau.

	AA2 Cyfansoddi a datblygu syniadau cerddorol â rheolaeth dechnegol a chydlyniad		
Band	Creadigrwydd a datblygu syniadau cerddorol (AA2.1a)	Rheolaeth dechnegol ar elfennau ac adnoddau cerddorol (AA2.1b)	Adeiledd a chydlyniad arddulliadol (AA2.1c)
4	10-12 marc - Mae'r syniadau yn effeithiol iawn, ac yn cynnig llawer o botensial ar gyfer datblygiad creadigol - Mae'r cynnwys yn cael ei ddatblygu'n gelfydd drwy gydol y darn - Cyferbyniadau o ran lliw tŷn a naws yn effeithiol iawn	10-12 marc - Dewis effeithiol iawn o elfennau ac adnoddau - Amrywiaeth eang o elfennau cerddorol yn cael eu defnyddio'n gelfydd - Mae adnoddau, gan gynnwys technoleg, yn cael eu rheoli'n gelfydd	10-12 marc - Darn wedi ei drefnu'n dda iawn a syniadau cerddorol wedi'u cyflwyno'n effeithiol iawn - Mae'r arddull a'r cymeriad yn effeithiol iawn mewn ymateb i'r briff a ddewiswyd - Mae'r canlyniad yn effeithiol a cherddorol iawn ac yn gwbl gydlynol
3	7-9 marc - Mae'r syniadau yn effeithiol ar y cyfan, ac yn cynnig potensial ar gyfer mwy o ddatblygu - Mae'r cynnwys yn cael ei ddatblygu'n fedrus drwy gydol y darn - Cyferbyniadau o ran lliw tŷn a naws yn effeithiol ar y cyfan	7-9 marc - Dewis effeithiol ar y cyfan o elfennau ac adnoddau - Amrywiaeth o elfennau cerddorol yn cael eu defnyddio'n fedrus - Mae adnoddau, gan gynnwys technoleg, yn cael eu rheoli'n dda ar y cyfan	7-9 marc - Darn wedi ei drefnu'n dda gan gyflwyno syniadau cerddorol yn effeithiol - Mae'r arddull a'r cymeriad yn effeithiol ar y cyfan o ran ymateb i'r briff a ddewiswyd - Mae'r canlyniad yn effeithiol a chydlynol ar y cyfan

2	4-6 marc - Mae'r syniadau yn syml, ac maent yn cynnig ychydig o botensial ar gyfer datblygu - Mae rhai syniadau wedi'u datblygu yn rhannol - Rhai cyferbyniadau o ran lliw tôn a naws	4-6 marc - Mae rhai o'r elfennau a'r adnoddau a ddewiswyd yn effeithiol - Mae rhai elfennau cerddorol yn cael eu defnyddio'n anghyson - Defnydd anghyson o adnoddau, gan gynnwys technoleg	4-6 marc - Trefn anghyson gyda rhai syniadau cerddorol yn cael eu cyflwyno'n effeithiol - Mae'r arddull a'r cymeriad yn anghyson mewn ymateb i'r briff a ddewiswyd - Mae'r canlyniad yn anghyson ond yn dangos ychydig o deimlad o gydlyniad
1	1-3 marc - Mae'r syniadau yn gyfyngedig, ac nid ydynt yn cynnig llawer o botensial ar gyfer datblygu - Dim ond datblygiad cyfyngedig a ddangosir - Tystiolaeth gyfyngedig o ran lliw tôn a naws	1-3 marc - Dewis cyfyngedig aneffeithiol o elfennau ac adnoddau - Defnydd cyfyngedig o elfennau cerddorol - Rheolaeth gyfyngedig o adnoddau, gan gynnwys technoleg	1-3 marc - Cyfyngedig o ran trefnu a chyflwyno syniadau - Mae'r arddull a'r cymeriad yn gyfyngedig mewn ymateb i'r briff a ddewiswyd - Canlyniad anhrefnus a chyfyngedig
0	0 marc Dim tystiolaeth o unrhyw greadigrwydd neu ddatblygiad	0 marc Rheolaeth aneffeithiol ar elfennau ac adnoddau cerddorol	0 marc Dim tystiolaeth o drefn, arddull na chymeriad neu gydlyniad

Grid asesu ar gyfer Uned 2: Gwerthuso

- Dylid sefydlu'r band priodol drwy benderfynu pa ddisgrifiad perfformiad sy'n adlewyrchu perfformiad yr ymgeisydd orau.
- Yna dylid sefydlu'r marc priodol drwy benderfynu **i ba raddau** y mae'r ymgeisydd **wedi bodloni meini prawf y band perthnasol**.
- Dylid cofio mai pwrpas y bandiau yw cynorthwyo'r broses farcio drwy ddynodi lefelau cyrhaeddiad unigol, ac nid ydynt yn cyfateb i ffiniau graddau.

Band	AA4 Defnyddio sgiliau arfarnu i wneud penderfyniadau gwerthusol a beirniadol ynglŷn â'u cerddoriaeth eu hunain a cherddoriaeth pobl eraill.
4	10-12 marc • Gwerthusiad trylwyr o sut mae'r cyfansoddiad yn ateb y briff a osodwyd • Gwerthusiad trylwyr o sut mae elfennau cerddorol wedi cael eu defnyddio yn y cyfansoddiad • Barn feirniadol graff ynglŷn â pha mor effeithiol yw'r canlyniad cerddorol terfynol • Gwerthusiad trylwyr o safon y recordiad terfynol • Defnydd cywir a phriodol o derminoleg y pwnc.
3	7-9 marc • Gwerthusiad cyffredinol o sut mae'r cyfansoddiad yn ateb y briff a osodwyd • Gwerthusiad cyffredinol o sut mae elfennau cerddorol wedi cael eu defnyddio yn y cyfansoddiad • Beirniadaeth gyffredinol ynglŷn â pha mor effeithiol yw'r canlyniad cerddorol terfynol • Gwerthusiad cyffredinol o safon y recordiad terfynol • Defnydd cywir a phriodol o derminoleg y pwnc yn gyffredinol.
2	4-6 marc • Peth gwerthusiad o sut mae'r cyfansoddiad yn ateb y briff a osodwyd • Gwerthusiad anghyson o sut mae elfennau cerddorol wedi cael eu defnyddio yn y cyfansoddiad • Beirniadaeth anghyson o ba mor effeithiol yw'r canlyniad cerddorol terfynol • Gwerthusiad anghyson o safon y recordiad terfynol • Peth defnydd o derminoleg y pwnc.
1	1-3 marc • Gwerthusiad cyfyngedig o sut mae'r cyfansoddiad yn ateb y briff a osodwyd • Gwerthusiad cyfyngedig o sut mae elfennau cerddorol wedi cael eu defnyddio yn y cyfansoddiad • Beirniadaeth gyfyngedig o ba mor effeithiol yw'r canlyniad cerddorol terfynol • Gwerthusiad cyfyngedig o safon y recordiad terfynol • Defnydd cyfyngedig o derminoleg y pwnc
0	0 marc • Dim gwerthusiad o sut mae'r cyfansoddiad yn ateb y briff a osodwyd • Dim gwerthusiad o sut mae elfennau cerddorol wedi cael eu defnyddio yn y cyfansoddiad. • Dim gwerthusiad o'r canlyniad cerddorol terfynol • Dim gwerthusiad o'r recordiad • Dim defnydd cywir o derminoleg gerddorol.

Canllawiau ar gyfer asesu Uned 2: Cyfansoddi

Mae'r tabl canlynol yn esbonio sut i asesu pob pwynt bwled ar y grid asesu ar gyfer AA2. Mae'r disgrifiadau ansoddol wedi cael eu tynnu allan.

Canllawiau ar gyfer asesu AA2 Cyfansoddi a datblygu syniadau cerddorol â rheolaeth dechnegol a chydlyniad	
Grid asesu	Canllawiau
AA2.1.a: Creadigrwydd a datblygu syniadau cerddorol - Syniadau yn cynnig potensial ar gyfer datblygu - Mae'r cynnwys yn cael ei ddatblygu drwy gydol y darn - Defnyddio cyferbyniadau o ran lliw tôn a naws	- Asesu i ba raddau mae safon y deunydd thematig cychwynnol (yn cynnwys traw a rhythm) a/neu ddeunydd harmonig, fel sy'n briodol i'r darn, yn caniatáu lle i ddatblygu ymhellach. Bydd hyn yn cynnwys deunydd ar ddechrau'r darn neu unrhyw syniadau newydd a gyflwynir wedi hynny. - Asesu i ba raddau mae'r deunydd thematig/harmonig wedi cael ei ddatblygu drwy gydol y darn. Gall hyn gynnwys defnyddio dyfeisiau cyfansoddi ac ymestyn a gweithio ar syniadau. - Asesu a yw'r darn yn cynnwys gwahanol liwiau tôn a naws (e.e. newid tempo, gwead, dynameg ac ati.) er mwyn darparu amrywiaeth a chyferbyniad yn y darn.
AA2.1b: Rheolaeth dechnegol ar elfennau ac adnoddau cerddorol - Dewis elfennau ac adnoddau - Sut mae elfennau cerddorol yn cael eu defnyddio - Sut mae adnoddau, gan gynnwys technoleg, yn cael eu rheoli	- Asesu a yw'r dewis o elfennau cerddorol, offeryniaeth, lleisiau a thechnoleg yn ddigonol a phriodol ar gyfer y darn. - Asesu pa mor dda mae'r elfennau cerddorol a ddewiswyd yn cael eu rheoli a'u defnyddio yn y darn. - Asesu pa mor dda mae'r adnoddau (offeryniaeth, lleisiau a thechnoleg) yn cael eu rheoli a'u defnyddio yn y darn.
AA2.1c: Adeiledd a chydlyniad arddulliadol - Trefn y darn a chyflwyno'r syniadau cerddorol - Arddull a chymeriad mewn ymateb i'r briff a ddewiswyd - Cydlyniad y canlyniad terfynol	- Asesu a oes adeiledd da i'r syniadau cerddorol ac a yw'r darn yn gytbwys. - Asesu pa mor dda mae'r darn yn ateb y briff a osodwyd neu a ddewiswyd o ran arddull. - Asesu a yw'r darn yn gwneud synnwyr fel cyfanwaith unedig a cherddorol.

Cyngor ychwanegol ar gyfer cyfansoddi o fewn y meysydd astudio.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn arweiniad i gyfansoddi o fewn y meysydd astudio. **Nid** yw'n rhestr gyflawn o nodweddion y mae'n rhaid eu cynnwys.

Maes astudio 1: Ffurfiâu a Dyfeisiau Cerddorol

- defnydd effeithiol o adeileddau fel y rhai a restrir o dan y maes astudio
- ymdeimlad priodol o gydbwysedd a chyfrannedd (brawddeg, adeileddau cyffredinol)
- tystiolaeth o ddealltwriaeth gerddorol o gyweiredd, alaw, rhythm, harmoni (elfennau)
- rheolaeth gadarn ar y dyfeisiau a restrir o dan gynnwys y maes astudio

Maes astudio 2: Cerddoriaeth ar gyfer Ensemble

- tystiolaeth o ddealltwriaeth o'r mathau gwahanol o wead fel y cânt eu rhestru o dan y maes astudio ac fel sy'n briodol i'r darn
- defnydd effeithiol o amrywiaeth o ran gwead a chyferbyniadau
- gweadau offerynnol amrywiol (trwchus neu denau, dwys neu ysgafn)
- defnydd effeithiol o ddyfeisiau fel:
 - haenu
 - tutti/unsain
 - desgant
 - cyfalaw
 - syniadau cefndir
 - ansawdd cyferbyniol
 - rheolaeth effeithiol ar adrannau cordiol
 - defnydd o efelychiant/galw ac ateb/atsain a dyfeisiau antiffoniaidd

Maes astudio 3: Cerddoriaeth Ffilm

- perthnasedd y gerddoriaeth i'r stori
- defnydd o eiriau yn gyson â'r plot/syniadau
- cymeriadu'n cael ei adlewyrchu yn y gerddoriaeth
- deunydd thematig cryf a nodweddiadol
- syniadau ategol cefnogol
- cyferbyniadau cerddorol priodol er mwyn adlewyrchu naws/ystyr/golygfa
- cerddoriaeth yn adlewyrchu delweddau gweledol
- defnydd o ddyfeisiau a nodweddion cerddorol i greu disgwyliad, drama, cyffro
- dynameg addas er mwyn cefnogi ac adlewyrchu'r syniadau a ddewiswyd
- symudiad cromatig a harmonïau lle bo'n briodol
- defnydd o 'leitmotiv'
- haenu

- technegau minimalaidd gan gynnwys:
 - cydlyniad cyffredinol
 - cylchu sain (*phasing*)
 - rheoli celloedd melodaidd yn greadigol
 - newid celloedd cychwynnol yn raddol i fod yn gelloedd newydd drwy addasiadau cynyddol bach – trawsnewid syniadau'n gynnil
 - amrywio'r gwead
 - ychwanegu alawon
 - cylchdroi/symud seiniau
 - dadleoli rhythmig; croesi isorhythmig/haenu patrymau ostinato
 - metamorffosis (o batrymau ostinato)
 - osgoi ailadrodd union yr un peth

Maes astudio 4: Cerddoriaeth Boblogaidd

- Cerddoriaeth Roc/Pop
 - adeileddau wedi'u diffinio'n glir (32 bar, pennill-cytgan, 12 bar)
 - cytgan â bachyn melodig
 - penillion â geiriau gwahanol
 - rhagarweiniad/diweddglo
 - offerynnol/unawd
 - chwarae'n fyrfyr/syniadau pontio
 - defnyddio ríffiau
 - dilyniad cordiau clir
 - gwaith harmoni agos
 - lics gitâr
 - llinellau bas cryf
 - bas sy'n cerdded
 - rhythmau clir
 - curiad wedi'i bwysleisio'n gryf
 - offeryniaeth briodol
- Cyfuniad
 - Yn gyffredinol mae Cyfuniad yn cael ei dderbyn fel genre cerddorol sy'n cyfuno dau genre cerddorol gwahanol. Er enghraifft, gall y canlyniad gynnwys cyfuniad o arddulliau hanesyddol a modern, jazz, roc, clasurol, neu elfennau o gerddoriaeth y byd; neu efallai gall gynnwys cyfuniad o dueddiadau cyfredol cyferbyniol a/neu asio ansawdd acwstig ac electronig.

ATODIAD C

Rhestr o dermau cerddorol:

Alaw

- Anacrwsis
- Rhagdrawiad
- Cysylltiol (fesul cam)
- Digyswllt (onglog)
- Arpeggio/cordiau gwasgar
- Triadol
- Graddfaol (i fyny/i lawr)
- Traw isel
- Traw uchel
- Ystod
- Dilyniant
- Efelychiant
- Ailadrodd
- Cyferbyniad
- Leitmotiv
- Motiff
- Wythfed
- Tôn/2il Mwyaf
- 3ydd Mwyaf
- 4ydd Perffaith
- 5ed Perffaith
- 6ed Mwyaf
- 7fed Mwyaf
- Hanner tôn
- Symudiad cromatig
- Pentatonig
- Nodau blues
- Tril/addurniad
- Cyfalaw
- Brawddeg ateb
- Thematig
- Ffanffer

Cyweiredd

- Mwyaf
- Lleiaf
- Moddol
- Trawsgyweirio i'r Llywydd a'r Perthynol
Mwyaf/Lleiaf
Pentatonig

Harmoni

- Prif gordiau/cordiau sylfaen
- Cordiau eilaidd
- Gwrthdro/gwrthdroeon
- Diatonig
- Tonydd
- Islywydd
- Llywydd (7fed)
- Diweddeb berffaith
- Diweddeb amherffaith
- Diweddeb amen/eglwysig
- Diweddeb annisgwyl
- Dilyniad cordiau/dilyniant cordiau
- Rhythm harmonig
- Drôn
- Pedal
- Anghyseinedd
- Cordiau pŵer

Ffurf ac Adeiledd

- Dwyrân
- Teiran
- Rondo
- Miniwét a Thrîo
- Ailadrodd
- Cyferbyniad
- Thema ac amrywiadau
- Stroffig
- Ffurf cân 32 bar/AABA
- Blues 12 bar
- Galw ac ateb
- Ostinato
- Pont
- Toriad
- Dolen
- Chwarae'n fyrfyfyr
- Pennill
- Cytgan
- 8 bar canol
- Llenwi
- Rhagarweiniad
- Diweddglo
- Coda
- Rîff
- Brawddeg (rheolaidd ac afreolaidd)

Gwead

- Monoffonig
- Homoffonig
- Polyffonig
- Gwead 2, 3 neu 4 rhan
- Unsain
- Cordiol
- Efelychiant
- Haenog
- Alaw a chyfeiliant
- Cyfalaw
- Desgant
- Tôn gron
- Canon
- Drôn
- Bas alberti
- Cordiau ergyd
- Bas sy'n cerdded

Tempo

- Allegro/Vivace
- Allegretto
- Moderato/Andante
- Adagio/Lento
- Accelerando
- Ritardando/Rallentando
- Rubato
- Daliant

Rhythm

- Hanner brîf
- Minim
- Crosiet
- Cwafer
- Hanner cwafer
- Nodyn dot
- Trawsacennu
- Rhythmau swing
- Ar y curiad
- Oddi ar y curiad
- Tripled
- Tawnodau cysylltiedig
- Rhythmau sy'n gyrru
- Rhythmau dawnio
- Rhythmau roc

Mesur

- Rheolaidd
- Afreolaidd
- Acen
- Amser syml (2/4, 3/4, 4/4)
- Deublyg/triphlyg/pedwarplyg
- Amser cyfansawdd (6/8)

Dynmeg

- Pianissimo
- Piano
- Mezzo piano
- Mezzo forte
- Forte
- Fortissimo
- Crescendo
- Diminuendo
- Sforzando

Arddulliau Cerddorol

- Traddodiad Clasurol y Gorllewin
- Baróc
- Clasurol
- Rhamantaidd
- Cerddoriaeth siambr
- Jazz
- Blues
- Theatr Gerdd/Sioe Gerdd
- Cerddoriaeth Werin Gymreig
- Cerdd dant
- Cerddoriaeth Ffilm
- Roc
- Soul
- Hip-hop
- Reggae
- Baled
- Pop
- Cyfuniad
- Minimaliaeth

Ansawdd

Offerynnau/Lleisiau a Grwpiau

- Llinynnau
- Feiolin
- Fiola
- Sielo
- Bas Dwbl
- Telyn
- Chwythbrennau
- Ffliwt
- Obo
- Clarinét
- Sacsoffon
- Basŵn
- Pres
- Trwmped
- Corn Ffrengig
- Trombôn
- Tiwba
- Offer taro
- Timpani
- Cit drymiau
- Drwm gwifrau
- Symbal
- Offerynnau taro llaw
- Glockenspiel
- Seiloffon
- Allweddellau
- Piano
- Organ
- Harpsicord
- Basso continuo
- Gitâr Glasurol neu Sbaenaidd
- Gitâr drydan
- Gitâr fas
- Unawd
- Deuawd
- Triawd
- Soprano
- Alto
- Tenor
- Bas
- Lleisiau cefndir
- A cappella
- Corws
- Cerddorfa

- Pedwarawd llinynnol
- Basso continuo
- Grŵp pop/roc
- Adran rhythm
- Acwstig

Technoleg

- Wedi'i syntheseiddio/electronig
- Panio
- Cylchu sain
- Sampl
- Datsain/datseinedd
- Atsain/atseinedd
- Wedi ei fwyhau

Technegau perfformio/Cynaniad

- Hymian
- Sillafog
- Melismataidd
- Sgat
- Vibrato
- Falsetto
- Belt/beltio
- Rap
- Staccato
- Legato
- Wedi'i gynnal/cynaliedig
- Acen
- Pizzicato
- Arco/â'r bwa
- Divisi
- Gwasgiad dwbl
- Tremolo
- Ystumiant
- Morthwyllo
- Trawiad ymyl
- Bas slap
- Bwrlwm drwm
- Wedi'i fudo/gyda mudydd
- Glissando/llithro
- Plygu traw
- Wedi'i blycio/dynnu
- Wedi'i lithro
- Wedi'i dafodi
- Wedi'i wahanu